
CPS De Cymru

# Asesiad Perfformiad Cyffredinol

Cynhaliwyd Awst 2007



Hyrwyddo Gwelliant o ran Cyfiawnder Troseddol

HMcpsi
HM Crown Prosecution Service Inspectorate

CPS De Cymru

# Asesiad Perfformiad Cyffredinol

Cynhaliwyd Awst 2007



Hyrwyddo Gwelliant o ran Cyfiawnder Troseddol

HMcpsi

HM Crown Prosecution Service Inspectorate

# TALFYRIADAU

Nodir y talfyriadau cyffredin a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn isod.
Eglurir y talfyriadau lleol yn yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| ABM | Rheolwr Busnes Ardal |
| ABP | Cynllun Busnes Ardal |
| AEI | Arolygiad Effeithiolrwydd Ardal |
| ASBO | Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |
| BCU | Uned Gorchymyn Sylfaenol neu Uned Gorchymyn Bwrdeistrefol |
| BME | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| CCP | Prif Erlynydd y Goron |
| CJA | Ardal Cyfiawnder Troseddol |
| CJS | System Cyfiawnder Troseddol |
| CJSSS | Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod |
| CJU | Uned Cyfiawnder Troseddol |
| CMS | System Rheoli Achosion |
| CPIA | Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol |
| CPO | Swyddog Datblygu Achos |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| CPSD | CPS Direct |
| CQA | Sicrhau Ansawdd Gwaith Achos |
| CTL | Terfyn Amser Cadwraeth |
| DCP | Erlynydd y Goron Rhanbarthol |
| DCV | Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr |
| DCW | Gweithiwr Achos Dynodedig |
| DP | Erlynydd ar Ddyletswydd |
| ECU | Uned Troseddau Economaidd |
| ETMP | Rhaglen Rheoli Treialon Effeithiol |
| HCA | Eiriolwr Llys Uwch |
| HMCPSI | Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi |
| JDA | Rhyddfarnu dan Gyfarwyddwyd Barnwr |
| JOA | Rhyddfarnau dan Orchymyn Barnwr |
| JPM | Monitro Perfformiad ar y Cyd |
| LCJB | Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd |
| MG3 | Ffurflen lle y cofnodir y penderfyniad cyhuddo |
| NCTA | Dim Achos i'w Ateb |
| NRFAC | Costau Gweinyddu Heb eu Neilltuo |
| NWNJ | Dim Tyst Dim Cyfiawnder |
| OBTJ | Troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt |
| OPA | Asesiad Perfformiad Cyffredinol |
| PCD | Penderfyniad Cyn Cyhuddo |
| PCMH | Gwrandawiad Rheoli Ple ac Achos |
| POCA | Deddf Elw Troseddau |
| PTPM | Rheoli Perfformiad Tîm yr Erlyniad |
| PYO | Troseddwr Ifanc Cyson |
| SMT/G | Uwch Dîm neu Grŵp Rheoli |
| TU | Uned Dreialon |
| UBM | Rheolwr Busnes yr Uned |
| UH | Pennaeth yr Uned |
| VPS | Datganiad Personol Dioddefwyr |
| WCU | Uned Gofal Tystion |

# CYNNWYS


**A Cyflwyniad i'r broses asesu perfformiad cyffredinol ..... 2**

**B Disgrifiad o'r ardal a'r llwyth achosion ..... 3**

**C Crynodeb o ddyfarniadau ..... 4**

**D Agweddau diffiniol ..... 8**

1 Gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo: rheoli a gwireddu'r manteision ..... 8
2 Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon ..... 12
3 Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron ..... 16
4 Datblygu achosion yn y llys ..... 19
5 Achosion sensitif a throseddau casineb ..... 21
6 Datgelu ..... 23
7 Terfynau amser cadwraeth ..... 25
8 Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion ..... 26
9 Cyflwyno newid ..... 29
10 Rheoli adnoddau ..... 32
11 Rheoli perfformiad er mwyn gwella ..... 35
12 Arweinyddiaeth ..... 38
13 Sicrhau hyder y gymuned ..... 41


**Atodiadau**


A Data perfformiad ..... 43

B Asiantaethau cyfiawnder troseddol a sefydliadau a gynorthwyodd â'r asesiad perfformiad cyffredinol hwn. ..... 46

# A CYFLWYNIAD I'R BROSES ASESU PERFFORMIAD CYFFREDINOL

Canlyniad asesiad cyffredinol Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI) o berfformiad Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn Ne Cymru yw'r adroddiad hwn ac mae'n cynrychioli asesiad pellach y gellir mesur gwelliant o'r asesiad sylfaenol blaenorol yn 2004-05 yn ei erbyn.

**Asesiadau**

Gwnaed dyfarniadau gan HMCPSI yn seiliedig ar asesiadau absoliwt a chymharol o berfformiad. Daeth y rhain o ddata cenedlaethol; hunan-asesiad CPS; canfyddiadau HMCPSI; a mesuriad yn erbyn y meini prawf a'r dangosyddion perfformiad da a nodir yn fframwaith yr asesiad perfformiad cyffredinol (OPA), sydd ar gael i bob Ardal.

Pennwyd yr OPA drwy raddio perfformiad yr Ardal o fewn pob categori naill ai fel 'Ardderchog' (lefel 4), 'Da' (lefel 3), 'Gweddol' (lefel 2), neu 'Gwael' (lefel 1) yn unol â'r meini prawf a amlinellwyd yn y fframwaith.

Mae'r Arolygiaeth yn defnyddio model penderfynedig a gaiff ei arwain gan reolau ar gyfer asesu, sydd wedi'i gynllunio i roi blaenoriaeth i'r graddau ar gyfer agweddau 'critigol' ar y gwaith fel ffactorau sy'n sbarduno'r lefel perfformiad cyffredinol terfynol. Caiff asesiadau ar gyfer yr agweddau critigol eu hategu gan raddau sy'n ymwneud â'r agweddau diffiniol eraill, er mwyn pennu'r OPA.

Mae'r tabl ar dudalen 7 yn dangos perfformiad yr Ardal ym mhob categori, ynghyd â 'chyfeiriad y teithio' ers yr OPA blaenorol.

Nid yw OPA yn arolygiad llawn ac mae'n wahanol i weithgaredd arolygu traddodiadol. Er ei fod wedi'i gynllunio i nodi'n gynhwysfawr yr agweddau cadarnhaol ar berfformiad a'r rhai y mae angen eu gwella, mae'n osgoi yn fwriadol bod yn ddadansoddiad manwl o'r prosesau sy'n sail i berfformiad.

Bydd y math hwnnw o archwiliad manwl, lle y bo angen, yn rhan o'r rhaglen ehangach o weithgaredd arolygu.

**Gradd cyfeiriad teithio**

Dengys hyn y newid ym mherfformiad yr Ardal rhwng y cyfnod asesu presennol a'r OPA blaenorol, hynny yw rhwng 2004-05 a 2006-07. Mae'r graddau posibl fel a ganlyn:

**Wedi gwella** - gwelliant sylweddol mewn perfformiad;
**Sefydlog** - dim newid sylweddol mewn perfformiad;
**Wedi gwaethygu** - perfformiad wedi gwaethygu'n sylweddol.

# B DISGRIFIAD O'R ARDAL A'R LLWYTH ACHOSION

Mae CPS De Cymru yn gwasanaethu'r ardal a gwmpesir gan Heddlu De Cymru. Mae ganddo bum swyddfa, un yng Nghaerdydd, dwy yn Abertawe, a dwy ym Merthyr Tudful. Mae Pencadlys yr Ardal (Ysgrifenyddiaeth) wedi'i leoli yn swyddfa Caerdydd. Mae'r Ardal hefyd yn cwmpasu deg canolfan gyhuddo.

Rhennir busnes rhwng tri rhanbarth daearyddol ac mae'r unedau oddi mewn iddynt yn seiliedig ar ddyletswyddau amlswyddogaethol. Lleolir Uned Eiriolwr Llys Uwch (HCA) yng Nghaerdydd ac mae'r Uned Gwaith Achos Cymhleth ar gyfer Grŵp Ardal Cymru (y pedair Ardal CPS yng Nghymru gyda'i gilydd) wedi'i sefydlu yn Ne Cymru ac wedi'i rhannu rhwng safleoedd yn Abertawe a Merthyr Tudful.

Yn ystod y flwyddyn 2006-07 roedd yr Ardal yn cyflogi cyfartaledd o 223.1 o aelodau o staff llawn amser, ac roedd ganddi gyllideb o £9,493,620. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 7.1% mewn staff, a chynnydd o 20.9% yn y gyllideb ers 2004-05, sef y cyfnod a gwmpaswyd gan yr OPA blaenorol.

Mae manylion llwyth achosion yr Ardal yn 2004-05, ac yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2007 fel a ganlyn:

**Gwaith cyn cyhuddo**[1]

| **2004-05** | | **2006-07** | |
|---|---|---|---|
| Cyngor ysgrifenedig | 2,032 | Penderfyniadau a arweiniodd at gyhuddiad | 9,076 |
| Cyngor cyn cyhuddo (lle y mae ar gael) | 5,248 | Penderfyniadau nad arweiniodd at gyhuddiad[2] | 7,964 |

| **Gweithrediadau'r llysoedd ynadon**<br>(yn cynnwys achosion a oedd yn amodol ar benderfyniad cyn cyhuddo yn flaenorol) | **2004-05** | **2006-07** | **Newid canrannol** |
|---|---|---|---|
| Erlyniadau yn y llysoedd ynadon | 44,535 | 28,737 | - 35.5% |
| Gweithrediadau eraill | 96 | 57 | - 40.6% |
| **Cyfanswm y gweithrediadau yn y llysoedd ynadon** | **44,631** | **28,794** | **- 35.5%** |
| **Gweithrediadau Llys y Goron**<br>(yn cynnwys achosion a oedd yn amodol ar benderfyniad cyn cyhuddo yn flaenorol) | | | |
| Achosion a anfonwyd neu a draddodwyd i Lys y Goron benderfynu arnynt | 3,066 | 2,360 | - 23.0% |
| Traddodi i ddedfryd[3] | 824 | 729 | - 11.5% |
| Apeliadau o'r llysoedd ynadon[3] | 321 | 307 | - 4.4% |
| **Cyfanswm gweithrediadau Llys y Goron** | **4,211** | **3,396** | **- 19.4%** |

Yn 2006-07, roedd 59.1% o droseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt o ganlyniad i gollfarnau.

1 Nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth ddilys â llwyth achosion cyn cyhuddo 2004-05 am mai dim ond o fis Ebrill 2006 ymlaen yr oedd dulliau cyhuddo statudol ar waith yn llawn ym mhob un o Ardaloedd y CPS.

2 Yn cynnwys penderfyniadau a arweiniodd at beidio â chymryd camau pellach, achosion a ystyriwyd (TICs), rhybuddion a gwarediadau eraill.

3 Cynhwyswyd hefyd yn ffigurau'r llysoedd ynadon, lle y cynhaliwyd y gwrandawiad sylweddol.

# C CRYNODEB O DDYFARNIADAU

**Ffactorau cyd-destunol a chefndir**

Bu rhywfaint o ansefydlogrwydd o ran staffio. Er i Brif Erlynydd y Goron (CCP) ddechrau yn ei swydd ym mis Gorffennaf 2004 a'i fod bellach wedi hen sefydlu, ar adeg yr asesiad hwn roedd yn dal i weithredu fel CCP ar gyfer CPS cyfagos Gwent yn absenoldeb deiliad swydd parhaol yno. Nid oedd y ffaith ei fod yn gyfrifol am y ddwy Ardal yn ddelfrydol, yn enwedig gan fod ei benodiad fel arweinydd Grŵp Ardal Cymru yn golygu bod angen canolbwyntio ar ddatblygu'r strwythurau gofynnol. Ar hyn o bryd, mae'r Rheolwr Busnes Ardal (ABM) ar secondiad i Bencadlys y CPS ac yn dilyn hynny, mae'r ABM dros dro wedi'i benodi i Dde Cymru o Went. Mae Pennaeth Rhanbarthol hefyd wedi'i secondio i Bencadlys y CPS sydd wedi arwain at symud rhai uwch reolwyr ac mae Pennaeth Rhanbarthol Dros Dro yn gweithio yng Nghaerdydd.

Mae'r Ardal wedi gweld rhywfaint o ailstrwythuro ers yr OPA diwethaf yn 2005 gyda symudiad i ffwrdd oddi wrth unedau swyddogaethol i unedau cyfunol o fewn y rhanbarthau a lleihad yn nifer y swyddfeydd o 8 i 5. Lleolir Unedau Gofal Tystion (WCUs) bellach ar dri safle, un ym mhob rhanbarth, yn hytrach na saith. Mae Uned HCA llawn amser wedi'i sefydlu yng Nghaerdydd ac mae Uned Gwaith Achos Cymhleth Grŵp Ardal Cymru wedi'i chreu a'i rhannu rhwng safleoedd.

Gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn llwyth achosion ers yr OPA diwethaf. Gwelwyd gostyngiad o 19.4% mewn achosion yn Llys y Goron, a gostyngiad o 35.5% mewn achosion yn y llysoedd ynadon, rhwng 2004-05 a 2006-07. Mae hyn wedi effeithio ar y gyfran a ddyrennir o gyllideb gyffredinol y CPS, er bod yr Ardal wedi cael cymorth gan Bencadlys y CPS ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.

Un fenter allweddol ar gyfer y pedair Ardal yng Nghymru yw rhoi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith yn ystod y flwyddyn gyfredol. Mae'r CCP wedi chwarae rôl ganolog wrth weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu'r cynllun, er mwyn ennyn parch a hyder y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Mae'r Ardal hefyd wrthi'n paratoi ar gyfer cyflwyno Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod.

**Crynodeb**

Mae ymrwymiad clir gan uwch reolwyr i weithredu mentrau allweddol ac i arwain gwaith ar y cyd ar lefel Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB) ac yn y maes cyfiawnder troseddol yn gyffredinol. Mae arwyddion o gydberthnasau gwaith da ag asiantaethau eraill ar lefel uwch ond nid yw hyn bob amser yn arwain at sefyllfa lle y caiff gwasanaethau eu darparu ar y cyd gan asiantaethau.

Llwyddiant cymysg a welwyd o ran gweithredu prosiectau ar y cyd. Bu'r gwaith o gyflwyno'r WCUs gyda'r heddlu yn llwyddiant ac mae'r rhain bellach yn rhan o'r busnes craidd. Mewn cyferbyniad â hynny, mae'r cynllun cyhuddo wedi bod yn llai llwyddiannus, ac mae adolygiad o'r cynllun hwn wedi'i gwblhau yn ddiweddar. Mae'r broses o gynnwys y cynllun cyhuddo yn y busnes craidd wedi bod yn her i'r Ardal ac fe'i hystyrir o hyd gan rai fel gweithgarwch ychwanegol. Er gwaethaf hyn, mae buddiannau'n cael eu gweld o ran pump o'r chwe mesur. Gallai'r Rhaglen Rheoli Treialon Effeithiol fod wedi sicrhau mwy o fuddiannau i'r llysoedd a'r CPS hefyd.

Mae rhai mentrau wedi'u harwain yn effeithiol ar y cyd. Cafwyd dirywiad mewn perfformiad yn ystod 2006-07 o ran yr amser rhwng arestio a dedfrydu troseddwyr ifanc cyson. Cymerwyd camau gweithredu ac aethpwyd i'r afael â pherfformiad ar y cyd gan yr asiantaethau gan arwain at welliant yn ystod misoedd mwy diweddar. Yn yr un modd, sicrhawyd gwelliannau mewn cyfraddau treialon effeithiol yn Llys y Goron a'r llysoedd ynadon, gyda'r ddwy gyfradd bellach yn well na'r cyfraddau cenedlaethol, drwy gydweithio.

O fewn yr Ardal, ceir cryn annibyniaeth ar lefel ranbarthol, sy'n arwain at systemau, prosesau a gweithdrefnau gwahanol. Ceir prinder dulliau strategol o weithredu a dulliau o weithredu ledled yr Ardal. Mae'r graddau hyn o annibyniaeth ar lefel ranbarthol wedi effeithio ar y ffordd y mae rhai mentrau allweddol wedi'u gweithredu. Er enghraifft, mae'r dull o gyhuddo yn amrywio, yn hytrach nag yn adlewyrchu strategaeth Ardal gytûn gyda'r heddlu, ac ni fabwysiadwyd unrhyw ddull strategol o weithredu i wella'r broses restru er budd y CPS neu'r maes cyfiawnder troseddol yn gyffredinol. Mae angen neges gorfforaethol gliriach ynghylch strategaeth a chyfeiriad De Cymru yn y dyfodol er mwyn rhoi arweiniad i bob rheolwr ac aelod o staff.

Ceir perfformiad cymysg o ran gwaith achos ar draws y rhanbarthau. Ar y cyfan, ymdrinnir ag achosion yn Llys y Goron yn dda; mae systemau ar waith a glynir wrthynt, gan sicrhau bod achosion yn cael eu paratoi'n gywir ac y gwneir cynnydd cyflym drwy'r system. Nid yw'r perfformiad yn y llysoedd ynadon cystal ond mae dulliau rheoli digonol ar waith i fonitro perfformiad unigol a rhoi adborth ar bob lefel. Mae amseroldeb achosion unwaith y maent yn rhan o'r system llys yn dda iawn ar y cyfan. Er bod hyn i'w ganmol, gallai adlewyrchu'r lleihad cyfyngedig yn nifer yr eisteddiadau yn wyneb llwyth gwaith sy'n gostwng fel bod rhestrau 'ysgafn' a phroses effeithiol o ddatblygu achosion wedi'u cyflawni ar draul arbedion effeithlonrwydd gwirioneddol.

Mae'r broses o ymdrin ag achosion sensitif a throseddau casineb yn gadarn ac wedi cynhyrchu rhai canlyniadau da iawn. Mae'r strwythurau, y dulliau a'r arbenigedd ar waith i sicrhau y caiff yr agwedd hon ar waith achosion ei rheoli'n effeithiol. Mae tri Llys Arbenigol ar gyfer Trais yn y Cartref, gyda'r prif lys yng Nghaerdydd; cyflawnwyd pob un o'r rhain drwy ddull amlasiantaethol o weithio.

Gall yr Ardal nodi agweddau y mae angen eu gwella a chymerir camau gweithredu i fynd i'r afael â pherfformiad, er nad yw gwelliannau gwirioneddol yn cael eu cyflawni'n gyson ar draws y rhanbarthau bob amser. Ymgymerwyd â gwaith sylweddol i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod yr OPA diwethaf mewn perthynas â datgelu deunydd nas defnyddiwyd. Cyflawnwyd rhai gwelliannau ond nid ar draws De Cymru yn gyffredinol, ac mae perfformiad un rhanbarth yn dal i fod yn llai na boddhaol. Ni chafwyd digon o welliant i godi gradd yr Ardal o ran yr agwedd hon ar waith. Yn yr un modd, ymgymerwyd â gwaith sylweddol ar derfynau amser cadwraeth a gwnaethpwyd gwelliannau. Fodd bynnag, mae absenoldeb tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â system yr Ardal ac ymagweddau amrywiol ar draws y rhanbarthau yn tanseilio'r gwaith a wnaethpwyd.

Mae'r Ardal yn cydnabod bod angen cynyddu'r ddarpariaeth fewnol yn y llysoedd, sydd eisoes yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gellid sicrhau effeithlonrwydd pellach pe gallai greu cyfleoedd i wneud mwy o ddefnydd o weithwyr achos dynodedig a gweithio gyda'r llysoedd ym mhob rhanbarth i leihau nifer y rhestrau. Mae Uned HCA effeithiol wedi'i sefydlu ac mae'r defnydd a wneir ohoni wedi rhagori ar y targed arbedion. Yr her i'r dyfodol yw sicrhau y caiff mentrau eu gweithredu, tra'n cyflawni mwy o arbedion ac effeithlonrwydd yn wyneb cyllideb sy'n lleihau, a rhoi mwy o ystyriaeth i bolisïau gwerth am arian.

Ceir ymrwymiad i ymgysylltu â'r gymuned ar draws yr Ardal, a adlewyrchir yn y cynllun busnes ac a ddangosir drwy natur y gweithgarwch y mae ystod eang o staff yn ymgymryd ag ef er mwyn ymgysylltu â'r gymuned. Pennwyd cyllideb ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu hefyd. Mae'r Ardal yn ymdrin â'r cyfryngau ac yn mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder yn lleol ac sy'n gallu effeithio ar hyder mewn ffordd ragweithiol. Er gwaethaf hyn, mae hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol yn Ne Cymru, fel y'i mesurir gan Arolwg Troseddu Prydain, wedi gostwng ychydig er nad yw'r gostyngiad hwn mor amlwg â'r duedd genedlaethol.

**Cyfeiriad teithio**

Mae perfformiad wedi gwella o ran tair agwedd ond mae'n rhaid cymryd camau gweithredu i wella'r broses o weithredu dulliau cyhuddo statudol sydd wedi llithro'n ôl ers yr OPA diwethaf. Mae'r Ardal wedi cynnal ei pherfformiad o ran yr agweddau sy'n weddill. Bydd y gallu i sicrhau gwelliant pellach yn dibynnu ar reolaeth gorfforaethol a chadarn o brosiectau a pherfformiad, yn enwedig yn Rhanbarth Merthyr, a phartneriaethau effeithiol ag asiantaethau eraill. Mae'r Ardal wedi dangos ei bod yn gallu rheoli perfformiad a chyflawni newid, er yn gyfyngedig mewn rhai rhannau o'i gwaith, ond yn sgîl ein canfyddiadau, mae'r perfformiad cyffredinol yn **WEDDOL**.

| **ASESIAD CYFFREDINOL** | | **GWEDDOL** | |
|---|---|---|---|

| **Agweddau critigol** | **Lefel yr asesiad** | | |
|---|---|---|---|
| | **OPA 2005** | **OPA 2007** | **Cyfeiriad teithio** |
| Gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo | Gweddol | **Gwael** | **Wedi gwaethygu** |
| Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon | Da | **Gweddol** | **Sefydlog**[4] |
| Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| Arweinyddiaeth | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |
| **Lefel gyffredinol yr asesiad critigol** | | **Gweddol** | |
| Datblygu achosion yn y llys | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| Achosion sensitif a throseddau casineb | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| Datgelu | Gwael | **Gwael** | **Wedi gwella**[5] |
| Terfynau amser cadwraeth | Gweddol | **Gweddol** | **Wedi gwella**[5] |
| Cyflwyno newid | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |
| Rheoli adnoddau | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| Rheoli perfformiad er mwyn gwella | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |
| Sicrhau hyder y gymuned | Da | **Da** | **Wedi gwella**[5] |
| **ASESIAD CYFFREDINOL** | Gweddol | **GWEDDOL** | |

4 Mae'r cyfeiriad teithio yn adlewyrchu'r ffaith bod canlyniadau yn y llysoedd ynadon a'r broses o ymdrin â'r achosion hynny wedi'u hasesu ar wahân ar adeg yr OPA diwethaf.

5 Er nad yw'r broses o asesu'r agwedd hon wedi newid, cafwyd gwelliant sylweddol o ran ystod y perfformiad a gwmpaswyd gan y band.

# D AGWEDDAU DIFFINIOL

| 1 GWNEUD PENDERFYNIADAU CYN CYHUDDO: RHEOLI A GWIREDDU'R MANTEISION | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gwael** | **Wedi gwaethygu** |

**1A Mae'r Ardal yn sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo yn gweithredu'n effeithiol yng nghanolfannau cyhuddo'r heddlu a chaiff ei dogfennu a'i chofnodi'n gywir**

- Mae cyfreithwyr a ddewisir fel erlynwyr ar ddyletswydd (DPs) yn gweithio o 9am tan 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn y deg canolfan gyhuddo sydd wedi'u halinio ag Unedau Gorchymyn Sylfaenol (BCUs) yr heddlu. I ddechrau, roedd DPs yn gweithio ar rota yn seiliedig ar aseiniadau tri mis i ganolfannau cyhuddo oherwydd y nifer gyfyngedig o gyfreithwyr yr ystyriwyd eu bod yn meddu ar y sgiliau gofynnol. Fodd bynnag, yn y canolfannau a gwmpesir gan Ranbarth Abertawe mae'r rotas bellach yn fwy hyblyg, ac mae cynllun peilot o aseiniadau wythnosol yn mynd rhagddo yng Nghaerdydd. Darperir cyngor cyhuddo wyneb yn wyneb i Heddlu Trafnidiaeth Prydain hefyd unwaith bob pythefnos.

- Rhoddir cyngor wyneb yn wyneb fel arfer mewn achosion o gadw yn y ddalfa; fodd bynnag, yr arfer mewn llawer o achosion lle rhoddir mechnïaeth yw bod yr heddlu yn cyflwyno ffeil bapur a'r DP yn paratoi cyngor ysgrifenedig a ddarperir i'r swyddog mewn da bryd ar gyfer dyddiad dychwelyd y fechnïaeth. Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2007, dim ond 38.7% o'r penderfyniadau a roddwyd wyneb yn wyneb yn dilyn yr arfer hwn, gyda 41.4% ohonynt yn cael eu rhoi'n ysgrifenedig. Mae hyn wedi digwydd yn rhannol am nad yw'r Ardal yn cynnig system apwyntiadau ac mae diffyg adnoddau a gwydnwch yn yr heddlu wedi arwain at sefyllfa lle maent yn ffafrio trosglwyddo ffeil bapur i'r CPS yn hytrach na gwneud trefniadau, yn cynnwys teithio a rhywfaint o oedi o bosibl, i weld y DP. Hyd yma, nid yw'r CPS wedi herio hyn yn systematig, er bod rhai unedau yn ystyried newid i system apwyntiadau i leihau'r amser aros i'r heddlu. Mae'r diffyg cyswllt wyneb yn wyneb yn cyfyngu ar y cyfle i drafod er mwyn cael gafael ar wybodaeth ychwanegol, neu er mwyn i'r erlynydd roi cyfle i'r swyddog ddysgu.

- Mae ffigurau yn nodi bod amrywiad eang yn nifer yr ymgynghoriadau yr ymdrinnir â hwy mewn canolfannau cyhuddo ym mhob sesiwn, gan amrywio o dri y diwrnod ar gyfartaledd mewn un canolfan, i 19.8 mewn canolfan arall. Nifer gyfartalog yr ymgynghoriadau fesul diwrnod ar draws yr Ardal yn 2006-07 oedd 62, sy'n gyfwerth â dim ond ychydig dros chwe ymgynghoriad fesul canolfan gyhuddo y diwrnod. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddadansoddi faint o waith a wneir ac i sicrhau bod trefniadau yn addas at y diben.

- Mae achosion cymhleth a'r achosion hynny y mae unedau heddlu arbenigol yn ymchwilio iddynt yn disgyn y tu allan i'r system DP ac fe'u cyfeirir at yr Uned Gwaith Achos Cymhleth drwy Benaethiaid Rhanbarthol a'r CCP.

- Mae'r Ardal yn cydnabod bod angen gwella'r ffordd y gweithredir y cynllun cyhuddo ar hyn o bryd ac mae adolygiad mewnol wedi'i gynnal. Mae argymhellion wedi'u gwneud sy'n cynnwys gofyniad i'r heddlu wella'r ffordd y gweithredir rôl y 'porthgeidwad' a chynyddu'r defnydd o

gynlluniau gweithredu, ymestyn y defnydd a wneir o system apwyntiadau a chynyddu nifer yr ymgynghoriadau wyneb yn wyneb. Mae llawer o'r argymhellion yn ail-nodi prosesau a oedd ar waith pan gyflwynwyd y cynllun cyhuddo ac y mae'r Ardal yn cydnabod ei bod wedi gwyro oddi wrthynt ers hynny; mae hyn yn cynrychioli ymgais i fynd yn ôl i'r dechrau yn hytrach na symud ymlaen. Mae'r heddlu hefyd yn cynnal adolygiad o'u Hunedau Cymorth Ymchwilio a sefydlwyd i ategu'r cynllun cyhuddo, sydd wedi'i adolygu ar wahân - ond ochr yn ochr - ag adolygiad y CPS.

- Caiff y cyfnod mechnïaeth cychwynnol o chwe wythnos ei ymestyn yn aml gan yr heddlu, a hynny fwy nag unwaith yn aml, gan nad ydynt yn barod i gyflwyno ffeil lawn o dystiolaeth ac oherwydd oedi wrth geisio cyngor ar y canlyniad. Mae'r CPS a'r heddlu yn adolygu adroddiadau achosion parhaus yng nghyd-gyfarfodydd Rheoli Perfformiad Tîm yr Erlyniad (PTPM) ym mhob rhanbarth ond prin iawn fu'r arwyddion o welliant o ran amseroldeb cyflwyno ffeiliau. Cwblhawyd 5.9% o'r achosion yn weinyddol ar system rheoli achosion (CMS) electronig y CPS yn 2006-07 yn erbyn ffigur cyfartalog cenedlaethol o 6.6%.

- Wynebwyd problem barhaus hefyd o ran y ffaith bod swyddogion yn methu â cheisio cyngor cyn cyhuddo ym mhob achos perthnasol. Pan ddigwydd hyn, bydd Penaethiaid Unedau yn trafod y mater gyda swyddogion goruchwylio a chaiff y mater ei godi mewn cyfarfodydd PTPM. Credir mai'r rheswm am hyn yw diffyg adnoddau a goruchwyliaeth yr heddlu yn hytrach nag ymgais fwriadol i osgoi'r gweithdrefnau.

- Ceir cyfradd uchel o achosion pan gynghorir na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach (NFA) ac yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2007 roedd y gymhareb tua un cyhuddiad i un NFA. Mae'r tîm cyhuddo cenedlaethol yn cynghori y dylai'r gymhareb fod oddeutu 2:1. Mae hyn wedi codi pryderon ynghylch rôl y porthgeidwad a weithredir gan yr heddlu. Fe'i trafodir mewn cyfarfodydd PTPM gyda'r heddlu a rhoddir adborth ar sail achosion unigol, ond mae gwaith dadansoddi tueddiadau yn gyfyngedig ac nid yw perfformiad wedi gwella'n sylweddol.

- Mae model datrys anghydfodau a gytunwyd ar lefel Ardal ar gael ar gyfer trosglwyddo unrhyw anghydfodau rhwng yr heddlu a'r DP, ond prin iawn yw'r adegau pan fo angen ei ddefnyddio.

- Yn 2006-07, cofnodwyd 92.1% o ymgynghoriadau ar CMS ac roedd gan 94% o benderfyniadau MG3 electronig (y ffurflen a ddefnyddir i gofnodi cyngor a phenderfyniadau cyn cyhuddo). Dangosodd yr adolygiad ôl-weithredu o'r cynllun cyhuddo ym mis Mehefin 2006 fod cydymffurfiaeth â'r broses o gofnodi ethnigrwydd, a gadarnhawyd gan y gwiriad 'realiti' a wnaethpwyd fel rhan o'r asesiad hwn. Fodd bynnag, yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2007, roedd 18.3% o achosion 'heb eu diffinio' gan awgrymu gwallau wrth gwblhau'r sgriniau perthnasol. Yn Rhanbarth Abertawe, mae rheolwyr yn nodi gwallau o'r fath ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cywiro.

- Caiff penderfyniadau a wneir gan CPS Direct (CPSD) eu monitro drwy'r adolygiadau o achosion anffafriol a gynhelir gan y Penaethiaid Unedau. Os bydd unrhyw benderfyniadau yn amlwg yn anghywir yn gyfreithiol, caiff manylion eu bwydo'n ôl drwy reolwr cyswllt CPSD.

- Cyflwynwyd rhybuddion amodol yn Rhanbarth Abertawe ym mis Mawrth 2007. Erbyn diwedd mis Mehefin y flwyddyn honno gwelwyd pum achos o roi rhybudd amodol. Mae system o adroddiadau 'colli cyfle' wedi'i defnyddio i amlygu achosion lle caiff unigolion eu cyhuddo pan y gallai fod wedi bod yn addas rhoi rhybudd amodol iddynt. Anfonir yr adroddiadau hyn at yr heddlu fel adborth. Cyflwynir y rhybuddion hyn yn y rhanbarthau eraill cyn diwedd 2007.

## 1B Mae'r Ardal yn sicrhau bod cyngor a phenderfyniadau cyn cyhuddo yn unol â chanllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, safonau cyhuddo a chanllawiau polisi

- Mae pob cyfreithiwr, yn cynnwys y rhai nad oes angen iddynt wneud penderfyniadau cyhuddo, wedi cael hyfforddiant drwy'r Rhaglen Erlynydd Rhagweithiol ac mae hyfforddiant arall wedi'i ddarparu lle y bo angen, er enghraifft, mewn perthynas â phob categori o droseddau casineb. Mae dulliau ar waith i alluogi DPs i geisio cyngor gan gyfreithwyr arbenigol lle y bo angen mewn perthynas â honiadau o drais rhywiol a cham-drin plant neu mewn achosion sy'n ymwneud â phobl ifanc.

- Caiff sampl o MG3s (pum achos cyhuddo a phum achos NFA bob mis) ei monitro gan bob Pennaeth Uned a rhoddir adborth unigol i gyfreithwyr. Os bydd unrhyw themâu yn dod i'r amlwg, rhoddir gwybodaeth i eraill drwy e-bost neu gyfarwyddiadau swyddfa a nodiadau canllaw. Rhoddir adborth hefyd ar achosion NFA i'r heddlu yn y cyfarfodydd PTPM.

- Caiff gwaith monitro ei gofnodi ar ffurflen sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r elfennau safonol o benderfyniadau cyhuddo, ac eithrio gorchmynion atal ac atafaelu. Dengys gwaith dadansoddi sicrwydd ansawdd gwaith achos (CQA) mai dim ond mewn 88.9% o achosion (cyfartaledd cenedlaethol o 95.1%) y cafodd hyn ei ystyried mewn ffordd briodol.

- Darganfu'r adolygiad ôl-weithredu o'r cynllun cyhuddo gan y tîm cenedlaethol yn ystod haf 2006 fod safon y broses gwneud penderfyniadau yn dda ar y cyfan. Cadarnhawyd y farn hon gan wiriadau realiti a gynhaliwyd fel rhan o'r asesiad hwn . Fodd bynnag, nid yw amseroldeb y broses gwneud penderfyniadau, sef 11.4 diwrnod ar gyfartaledd o'r penderfyniad cyntaf i'r penderfyniad cyhuddo, gystal â'r cyfartaledd cenedlaethol o 9.6 diwrnod ac mae hyn yn adlewyrchu goruchafiaeth cyngor ysgrifenedig.

- Rhaid i unrhyw benderfyniad i ddirwyn achos a fu'n destun penderfyniad cyn cyhuddo (PCD) i ben gael ei gymeradwyo gan Bennaeth Uned.

## 1C Gall yr Ardal ddangos manteision ei chyfraniad at y broses o wneud penderfyniadau cyn cyhuddo

| | Achosion yn y llysoedd ynadon | | | | Achosion yn Llys y Goron | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
| Cyfradd dirwyn i ben | 11.0% | 15.7% | 20.2% | 16.8% | 11.0% | 13.1% | 14.6% | 10.2% |
| Cyfradd pledio'n euog | 52.0% | 69.2% | 64.9% | 69.4% | 68.0% | 66.5% | 66.5% | 71.4% |
| Cyfradd athreulio | 31.0% | 22.0% | 25.1% | 22.0% | 23.0% | 22.2% | 24.5% | 20.6% |

- Mae'r Ardal yn gwireddu pump o'r chwe mantais ddisgwyliedig o ran y cynllun cyhuddo ac mae gwelliannau wedi'u gwneud rhwng 2005-06 a 2006-07. Fodd bynnag, mewn achosion yn y llysoedd ynadon, nid yw'r gyfradd dirwyn i ben yn cyrraedd lefelau perfformiad cenedlaethol. O ran achosion yn Llys y Goron, mae'r perfformiad yn well ar lefel genedlaethol ym mhob agwedd.

- Mae'r gyfradd gollfarnu gyffredinol ar gyfer pob achos cyn cyhuddo, sef 78.3%, ychydig yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Caiff achosion sy'n arwain at NFA ar y cam cyn cyhuddo eu dadansoddi ar lefel uned a'u trafod gyda chymheiriaid yn yr heddlu. Mae'r drafodaeth mewn cyfarfodydd PTPM hefyd yn cwmpasu agweddau ar wireddu manteision, ond nid oes unrhyw ddata ar gael ar gyfraddau pledio'n euog yn gynnar ac felly ni cheir dadansoddiad na rhannu gwybodaeth yn yr Ardal.

- Cynhelir cyfarfodydd PTPM lleol ym mhob uned. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi'u hymestyn i gwmpasu materion eraill ac asiantaethau eraill, fel y llysoedd, gan nad oes unrhyw fforwm arall ar gael i gael trafodaeth ryngasiantaethol am berfformiad. Mae'r cyfarfodydd hyn yn effeithiol ym marn yr Ardal. Fodd bynnag, mae risg bod y cyfle i ymgymryd â dadansoddiad manwl o berfformiad tîm yr erlyniad wedi'i lastwreiddio a bod llai o amser ar gael i dalu sylw llawn i faterion allweddol tîm yr erlyniad. Ar lefel strategol, mae PTPM yn llai effeithiol: nid yw'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal neu mae'r presenoldeb yn wael neu ar y lefel anghywir. Mae hyn wedi'i gydnabod gan Grŵp y Rhaglen Rheoli Achosion Troseddol, un o is-grwpiau'r LCJB, sy'n goruchwylio'r fenter cyhuddo. Mae'r grŵp yn cymryd camau i sicrhau bod gwaith dadansoddi strategol yn mynd rhagddo. O fewn yr heddlu, mae'r broses COMPSTAT (system TG) yn gwneud cymariaethau rhwng y BCUs.

- Mae'r broses o gynnwys y cynllun cyhuddo yn y busnes craidd wedi bod yn her i'r Ardal ac fe'i hystyrir o hyd gan rai fel gweithgarwch ychwanegol. Mae'n dal i benodi erlynwyr dethol i weithio ar sail rota, yn hytrach na phob un o'r rheini â'r profiad angenrheidiol, ac mae cydnabyddiaeth gyfyngedig o'r rôl y dylai dulliau cyhuddo chwarae wrth helpu i wella perfformiad ar draws y system cyfiawnder troseddol gyfan o fewn asiantaethau eraill, yn enwedig yr heddlu. Prin iawn yw'r dystiolaeth hefyd o ethos sy'n datblygu o ran 'tîm yr erlyniad' fel y dangosir gan yr adolygiadau cyfochrog diweddar o'r cynllun cyhuddo a gynhaliwyd ar wahân gan yr heddlu a'r CPS. Mae'r trefniadau cyfredol ar gyfer rheoli a gweithredu'r cynllun cyhuddo wedi cyfrannu at y radd a roddwyd i'r agwedd hon ar y gwaith.

| 2 SICRHAU CANLYNIADAU LLWYDDIANNUS YN Y LLYSOEDD YNADON | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Gweddol** | **Sefydlog** |

## 2A Mae canlyniadau llwyddiannus yn cynyddu

| Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Dirwyn i ben ac achosion o rwymo | 10.8% | 12.6% |
| Dim achos i'w ateb | 0.2% | 0.1% |
| Gwrthodiad ar ôl treial | 1.9% | 1.4% |
| Traddodebau a ryddhawyd | 0.2% | 0.3% |
| Gwarantau | 2.6% | 4.2% |
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 84.3% | 81.4% |

- Mae'r gyfradd gollfarnu yn y llysoedd ynadon yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol er bod gwelliant mewn perfformiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (78.7%). Fodd bynnag, mae'r gyfradd rhyddfarnau ar ôl treial a'r gyfradd dim achos i'w ateb yn well na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

- Mae'r gyfradd traddodebau a ryddhawyd yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol, y gellir ei phriodoli'n bennaf i berfformiad yn Rhanbarth Merthyr. Mae'r gyfradd traddodebau a ryddhawyd fel canran o'r traddodebau y gwrandawyd arnynt ac achosion a anfonwyd hefyd yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 3.2% o gymharu â 2.5% yn genedlaethol. Prif achos hyn yw absenoldeb ffeil lawn er mwyn paratoi'r achos ar gyfer ei draddodi. Nid yw'r llysoedd yn gydymdeimladol tuag at ohiriadau o dan y fath amgylchiadau a chaiff achosion eu rhyddhau yn unol â hynny. Mae system ailsefydlu ar waith, sy'n gymwys i bob rhanbarth, ac mae cyfarwyddiadau wedi'u rhoi ym Merthyr er mwyn sicrhau y glynir wrth y broses.

- Mae'r gyfradd dirwyn i ben hefyd yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol er ei bod yn welliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol (15.1%). Ym mhob achos lle y cynigir y dylid dirwyn achos i ben mae angen awdurdod Pennaeth yr Uned a chaiff pob achos sy'n ymwneud â throsedd casineb ei gyfeirio atynt hwy ac arbenigwr cyn y cytunir i ddirwyn yr achos i ben. Creffir ar ffigurau dirwyn i ben. Nodwyd dau fater i'w gwella: materion yn ymwneud â dioddefwyr a thystion a lle mae'r elfen gyfreithiol hanfodol ar goll. Ni ddylai'r olaf ddigwydd os yw achos wedi bod yn destun PCD.

- Caiff pob achos sy'n methu ei gyfeirio at y Penaethiaid Unedau a llunnir adroddiadau achosion anffafriol gyda'r bwriad o nodi gwersi i'w dysgu. Darperir adborth unigol ac mae trefniadau ar waith i ledaenu'r gwersi a ddysgwyd ar lefel uned a rhanbarth, er bod y rhain yn amrywio rhwng yr unedau. Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd ar gael i staff ar y gyriant a rennir. Caiff canlyniadau

llwyddiannus ar gyfer yr holl waith achos eu monitro ar y cyd hefyd mewn cyfarfodydd PTPM a cheir trafodaeth am berfformiad yng nghyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr y Llys.

- Mae perfformiad o ran troseddwyr ifanc cyson (PYOs) wedi gwaethygu ers yr OPA diwethaf yn 2005 pan gyrhaeddwyd y targed o 71 diwrnod o adeg yr arestiad i'r gwarediad yn gyson. Er bod y broses o ddatblygu achosion ar ôl cyhuddo yn effeithiol ar y cyfan, roedd y cyfnodau hir rhwng arestio a chyhuddo yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y ffigurau, a gwaethygwyd hyn gan y methiant i nodi PYOs yn gynnar. Gwaethygodd perfformiad drwy gydol y flwyddyn, ac arweiniodd hyn at bresenoldeb Dirprwy Brif Gwnstabl yr heddlu mewn dau gyfarfod atebolrwydd gyda'r Twrnai Cyffredinol i edrych ar y ffordd yr aed i'r afael â pherfformiad. Yr amser cyfartalog a gymerwyd o'r arestiad i'r gwarediad ar gyfer 2006-07 oedd 72.3 o ddiwrnodau sydd y tu allan i'r targed ond y gellir ei gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 72 o ddiwrnodau. Fodd bynnag, y cyfartaledd treigl tri mis hyd at fis Mawrth 2007 oedd 80 o ddiwrnodau. Mae'r Ardal, mewn cydweithrediad â'i phartneriaid cyfiawnder troseddol, wedi ymgymryd â chryn dipyn o waith yn cynnwys sefydlu protocol PYO, sy'n dechrau arwain at welliannau. Mae'r Ardal wedi pennu targed o 65 o ddiwrnodau ar gyfer 2007-08 yn unol â'r targed 'ymestynnol' a bennwyd gan y Twrnai Cyffredinol.

- Mae'r targed ar gyfer troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt (OBTJ) yn un a rennir a bennwyd drwy gyfeirio at yr asiantaethau cyfiawnder troseddol. Mae gallu'r CPS i ddylanwadu arno'n gyfyngedig gan fod y targed yn cynnwys troseddau yr ymdrinnir â hwy drwy warediadau nad ydynt yn cael eu herlyn. Mae'r CPS yn cyfrannu drwy reoli achosion er mwyn cadw'r gyfradd dirwyn i ben yn isel a gwneud penderfyniadau a rheoli achosion da ac mae'r Ardal yn ceisio gwella perfformiad mewn perthynas â phob un o'r rhain. Ni lwyddodd yr asiantaethau i gyrraedd y targed OBTJ ar gyfer 2006-07 ac mae'r nifer yn is na'r targed ar gyfer y flwyddyn bresennol. Yn ogystal, mae nifer y rhybuddion gan yr heddlu a throseddau a gaiff eu hystyried yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. O ganlyniad, cyfran y collfarnau oedd yr uchaf yn genedlaethol ar gyfer 2005-06 ac arhosodd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol yn ystod 2006-07 sy'n adlewyrchu cyfraniad cadarnhaol yr Ardal i OBTJ.

## 2B Mae dull effeithiol o reoli achosion a gwneud penderfyniadau yn golygu y gellir datblygu achosion ym mhob ymddangosiad llys

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 43.8% | 44.0% |
| Cyfradd treialon chwâl | 37.3% | 42.5% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 18.9% | 13.5% |
| Cyfradd treialon a gaiff eu gadael | 22.5% | 30.8% |

- Mae ansawdd ac amseroldeb ffeiliau'r heddlu yn rhwystr mawr i ddatblygu achosion yn effeithiol. Er enghraifft ceir llawer o enghreifftiau yn yr Ardal lle y caiff ffeiliau eu cyflwyno un neu ddau ddiwrnod cyn y gwrandawiad traddodi, mae'n rhaid penodi cyfreithiwr i sicrhau bod y gwaith paratoi yn cael ei wneud, a all effeithio ar waith arall, a cheir effaith gynyddol hefyd ar y

teipyddion a'r staff cymorth gweinyddol. Mae ansawdd ffeiliau'r heddlu wedi bod yn broblem hirsefydlog a nodwyd yn ystod yr OPA diwethaf. Mae'r mater wedi parhau i gael ei drafod ar lefel ranbarthol ac yn yr LCJB ond nid ymdriniwyd ag ef yn effeithiol hyd yn hyn. Mae dirywiad ym mherfformiad yr heddlu yn y maes cyfiawnder troseddol hefyd wedi'i amlygu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM. Er bod gweithdrefnau y cytunwyd arnynt â Heddlu De Cymru ar gyfer darparu ffeiliau, nid oes cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau hynny.

- Ymgymerir ag ychydig o waith monitro fel rhan o PTPM ond nid yw'r gwaith hwn yn casglu'r wybodaeth sydd ei hangen i allu gwneud dadansoddiad cywir o berfformiad. Yn Rhanbarth Caerdydd, mae system ar waith i gasglu rhai achosion o anghydymffurfiaeth gan yr heddlu er mwyn galluogi trafodaethau i gael eu cynnal gyda'r nod o wella perfformiad, ac yn Rhanbarth Abertawe mae system monitro ar y cyd newydd yn cael ei datblygu i gasglu data ar amseroldeb ac ansawdd a gaiff ei ystyried gan Grŵp Strategaeth y Rhaglen Rheoli Achosion Troseddol. Fodd bynnag, mae cyflwyno ffeil lawn o'r ansawdd priodol yn amserol yn parhau i fod yn her i'r heddlu ym mhob un o'r rhanbarthau ac mae hyn yn cael effaith ar berfformiad y CPS ar bob lefel. Mae angen i'r Ardal sicrhau bod strategaeth ar waith i fynd i'r afael â'r mater hwn.

- Mae Penaethiaid Unedau yn ymgymryd â gwaith samplu ar hap o achosion cyn cyhuddo ac yn cynnal dadansoddiad CQA a ategir gan asesiadau cyfreithwyr. Mae'r dulliau monitro hyn yn galluogi'r Ardal i gael sicrwydd, ar lefel uned a rhanbarth, o berfformiad mewn perthynas ag ansawdd y penderfyniadau a wneir a'r gwaith o baratoi achosion. Maent hefyd yn golygu y gellir hysbysu unigolion o'r gwersi i'w dysgu er mwyn ysgogi gwelliannau.

- Mae'r Ardal wedi ceisio gwella cysondeb o ran paratoi achosion drwy roi cyfarwyddiadau ar waith paratoi ffeiliau safonol a fformatau ffeiliau cyffredin sy'n cynnwys ffolderi ar wahân ar gyfer gohebiaeth a deunydd nas defnyddiwyd. Mae gweithdrefn datblygu achosion gytûn hefyd a gymhwysir at bob achos yn dilyn ple dieuog a ddaeth i'r amlwg yn ystod y gwiriadau realiti.

- Cytunwyd ar brotocol cytûn ar gyfer llysoedd ynadon fel rhan o'r Rhaglen Rheoli Treialon Effeithiol. Roedd hyn yn darparu ar gyfer penodi Swyddogion Datblygu Achosion (CPOs) ym mhob asiantaeth a'r prosesau y dylid glynu wrthynt drwy gydol achos. Mae CPOs wedi'u penodi ym mhob rhanbarth a cheir cyswllt dyddiol rhyngddynt â'u cymheiriaid yn yr asiantaethau eraill a chyda'r Unedau Gofal Tystion. Maent yn cadw taflenni monitro datblygu achosion i olrhain a datblygu achosion a chynhelir cyfarfodydd datblygu achosion rheolaidd gyda'r llysoedd. Ar y cyfan, unwaith y mae achosion yn rhan o system y llysoedd mae'r datblygiad fel arfer yn amserol.

- Mae'r Ardal yn paratoi ar gyfer cyflwyno CJSSS. Caiff ei dreialu yn Rhanbarth Abertawe ym mis Awst 2007 cyn cael ei gyflwyno'n llawn. Mae pob asiantaeth wedi ymrwymo i'r prosiect ac mae amharodrwydd cychwynnol ar ran yr heddlu wedi'i oresgyn. Mae rheolwyr prosiect wedi'u penodi ar gyfer y CPS a'r heddlu ac mae Timau Gweithredu Lleol wedi'u sefydlu ym mhob rhanbarth yn barod ar gyfer cyflwyno'r prosiect.

- Mae Hyrwyddwr Ieuenctid Ardal ac arbenigwyr rhanbarthol wedi'u penodi i arwain ar faterion ieuenctid. Yn Rhanbarth Caerdydd, mae tîm arbenigol wedi'i sefydlu i adolygu ac erlyn pob achos yn y llysoedd ieuenctid. Yn y ddau ranbarth arall, mae arbenigwyr yn adolygu ac yn paratoi achosion ac yn erlyn yn y llysoedd ieuenctid bob amser, er bod pob cyfreithiwr wedi cael hyfforddiant ar faterion ieuenctid. Trafodir gwaith achos ieuenctid mewn cyfarfodydd tîm a chynhelir cyfarfodydd datblygu achosion ieuenctid gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i olrhain a datblygu achosion.

- Mae'r gyfradd treialon effeithiol yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn welliant ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r gyfradd treialon aneffeithiol yn well o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae'n rhagori ar y targed lleol a'r targed cenedlaethol; mae hyn yn cynrychioli gwelliant ar 2005-06 (15.1%). Mewn cyferbyniad â hynny, mae'r gyfradd treialon aneffeithiol y gellir eu priodoli i'r erlyniad yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol (48.7% o gymharu â 35.5%). Mae'r Ardal yn priodoli hyn i'r ffordd ragweithiol yr eir i'r afael ag achosion sy'n ymwneud â honiadau o drais yn y cartref. Cyflawnir y gyfradd treialon aneffeithiol gyffredinol ar draul y gyfradd treialon a gaiff eu gadael, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac wedi gostwng ers 2005-06 (25%), er y gall cyfradd uchel o dreialon a gaiff eu gadael ddangos effeithiolrwydd y system datblygu achosion o ran sicrhau y caiff achosion eu gadael ymlaen llaw os bydd anawsterau yn codi. Mae'r gyfradd treialon chwâl yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn dangos tuedd ar i lawr o 2005-06 (43.9%). Mae tuedd gynyddol hefyd o achosion chwâl o ganlyniad i bleon euog hwyr.

- Caiff cyfraddau treialon chwâl a threialon aneffeithiol eu monitro, caiff y rhesymau eu dadansoddi a thrafodir perfformiad mewn cyfarfodydd tîm. Caiff perfformiad rhanbarthol ei fonitro gan Benaethiaid Unedau a'i drafod gan y Timau Rheoli Rhanbarthol (DMTs) a chyflwynir adroddiad arno yn yr adolygiadau perfformiad chwarterol. Cyflwynir adroddiadau ar berfformiad a thrafodir perfformiad yng nghydgyfarfodydd PTPM a Grŵp Defnyddwyr y Llys. Mae'r Unedau Gofal Tystion hefyd yn cyfrannu pan nodir materion yn ymwneud â thystion.

- Defnyddir CMS fel mater o drefn i gofnod digwyddiadau allweddol mewn achosion; ychydig iawn o dasgau a drosglwyddir a ddatgelwyd gan y gwiriadau realiti. Y gyfradd ar gyfer cofnodi adolygiadau yn y llysoedd ynadon ar gyfer 2006-07 oedd 68.9%, a ddangosodd welliant sylweddol o ganran sylfaen o 34.7% ar ddechrau'r flwyddyn gan gynyddu i 80% ar ddiwedd y flwyddyn. Pennwyd targed o 80% ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Mae angen gwella amseroldeb y gwaith o gofnodi canlyniadau gwrandawiadau (47.4%) a chwblhau achosion (32.6%), ond ymdrinnir â hyn yn ystod y flwyddyn gyfredol.

| **3 SICRHAU CANLYNIADAU LLWYDDIANNUS YN LLYS Y GORON** | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Sefydlog** |

### 3A Mae canlyniadau llwyddiannus yn cynyddu

| **Canlyniadau achosion yn Llys y Goron** | **Perfformiad cenedlaethol 2006-07** | **Perfformiad yr Ardal 2006-07** |
|---|---|---|
| Rhyddfarnau dan orchymyn barnwr | 13.1% | 10.7% |
| Rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr | 1.4% | 1.9% |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 6.5% | 7.0% |
| Gwarantau | 1.3% | 1.1% |
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 77.7% | 79.3% |

- Mae'r gyfradd gollfarnu yn Llys y Goron yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol er bod y perfformiad wedi gwaethygu rywfaint o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (80.9%). Mae'r perfformiad mewn perthynas â phob categori o ganlyniadau aflwyddiannus yn gymysg ond yn debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol yn y rhan fwyaf o achosion, ac mae'r gyfradd dirwyn i ben (rhyddfarnau dan orchymyn barnwr) yn well o lawer.

- Ymhob achos lle y cynigir y dylid dirwyn achos i ben, mae angen awdurdod Pennaeth yr Uned i sicrhau mai dim ond achosion priodol a gaiff eu dirwyn i ben. Ategir hyn drwy fonitro ansawdd cyngor cyn cyhuddo, y gweithdrefnau a fabwysiedir ar gyfer achosion yn ymwneud â throseddau casineb a monitro canlyniadau anffafriol. Cwblheir adroddiad canlyniadau anffafriol ar gyfer pob canlyniad aflwyddiannus. Gwneir hyn ar CMS gyda chofnod o'r cod cwblhau, y rheswm am y canlyniad ac unrhyw wersi i'w dysgu. Mae Penaethiaid Unedau yn monitro ac yn dadansoddi canlyniadau anffafriol a rhoddir adborth i unigolion ac mewn cyfarfodydd tîm. Darperir adborth hefyd drwy fwletinau mewn dau o'r rhanbarthau neu drwy gyfrwng canllawiau i fynd i'r afael â materion penodol wrth iddynt godi. Mae'r DMT yn trafod perfformiad yn ystod yr adolygiadau perfformiad rhanbarthol chwarterol, ac yn allanol gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol yn y cyfarfodydd PTPM gyda'r nod o sbarduno gwelliant.

- Ni chyrhaeddwyd targed y Ddeddf Elw Troseddau (POCA) ar gyfer 2006-07 o ran nifer y gorchmynion a sicrhawyd, gyda 170 yn erbyn targed o 187. Fodd bynnag, rhagorwyd ar y targed ariannol o bell ffordd, sef £2,351,588 yn erbyn targed o £1,022,341. Roedd y ddau ganlyniad hyn yn cynrychioli gwelliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol. Mae pob cyfreithiwr wedi cael hyfforddiant gan aelod o'r Tîm Adennill Asedau Rhanbarthol ac ategwyd hyn mewn un rhanbarth gan hyfforddiant ychwanegol gan swyddog o'r Uned Ymchwil Ariannol. Y CPOs yw'r prif bwyntiau cyswllt ar lefel ranbarthol ac maent yn cadw cofnodion o'r gorchmynion a sicrhawyd. Mae pob rhanbarth wedi penodi hyrwyddwr lleol hefyd. Caiff gwaith achos POCA ei ystyried fel rhan o'r system fonitro fisol a chyflwynir adroddiadau arno yn yr adolygiadau perfformiad chwarterol.

- Mae'r Rheolwr Busnes yn yr Uned Gwaith Achos Cymhleth (CCU) wedi ymgymryd â rôl yr arweinydd Ardal ar gyfer gorfodi POCA ac mae Pennaeth y CCU yn aelod o is-grŵp gorfodi LCJB. Mae hyfforddiant gorfodi POCA wedi'i ddarparu yn ystod y diwrnodau hyfforddi rhanbarthol, a gynhelir bob chwe mis. Mae Cynllun Busnes yr Ardal ar gyfer 2007-08 yn blaenoriaethu gwella safonau eiriolaeth gydag amcan penodol i gynyddu eiriolaeth POCA arbenigol.

### 3B Mae dull effeithiol o reoli achosion a gwneud penderfyniadau yn golygu y gellir datblygu achosion ym mhob ymddangosiad llys

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 48.2% | 54.6% |
| Cyfradd treialon chwâl | 39.5% | 33.7% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 12.4% | 11.7% |

- Mae'r Ardal yn adolygu ac yn paratoi achosion yn amserol a phriodol drwy waith CQA a wneir gan Benaethiaid Unedau. Ategir y gwaith hwn gan asesiadau o gyfreithwyr unigol sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am berfformiad. Mae'r CCU newydd ei sefydlu yn ymdrin â'r gwaith achos mwyaf cymhleth. Mae Grŵp Ardal Cymru wedi sefydlu'r uned yn Ne Cymru ar gyfer y pedair Ardal CPS yng Nghymru. Cyfeirir pob achos at y CCP cyn cael ei dderbyn gan yr uned. Mae'r rhanbarthau hefyd yn ymdrin â llawer o'r gwaith achos cymhleth a difrifol yn yr Ardal, yr ymdrinnir ag ef yn dda ar y cyfan.

- Mae'r rhanbarthau yn defnyddio templedi amrywiol i gynorthwyo gyda, a chofnodi datblygiad achosion, ar y ffeiliau. Cadarnhaodd y gwiriadau realiti fod y ffurflenni yn cael eu defnyddio'n briodol a bod yr achosion yn cael eu datblygu mewn ffordd ragweithiol ar y cyfan. Mae cyfarfodydd gweithwyr achos yn darparu fforwm ar gyfer trafod materion Llys y Goron y mae angen mynd i'r afael â hwy a lledaenu gwybodaeth.

- Mae CPOs wedi'u penodi ym mhob rhanbarth i sicrhau bod gwaith achos Llys y Goron yn cael ei ddatblygu ac y cedwir taenlenni i olrhain cynnydd. Maent yn cyfarfod yn wythnosol gyda'u cymheiriaid o asiantaethau eraill i drafod datblygiad achosion unigol, gyda Rheolwyr Gofal Tystion (WCMs) yn cyfrannu at faterion sy'n ymwneud â thystion.

- Mae protocol Rheoli Achosion Troseddol ar gyfer Llys y Goron yn Ne Cymru, Gwent a Dyfed Powys wedi bod ar waith ers mis Awst 2005. Mae'r protocol hwn yn nodi manylion y broses o gynnal gwrandawiadau cyn treial ac yn rhoi llinell amser ar gyfer cyfarwyddiadau safonol. Mae cyswllt ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd hefyd rhwng y Penaethiaid Rhanbarthol, rheolwyr Llys y Goron a'r farnwriaeth i fynd i'r afael â materion fel y maent yn codi.

- Mae arbenigwyr ym mhob rhanbarth yn adolygu ac yn ymdrin ag achosion ieuenctid. Caiff perfformiad ar y cyd ei ystyried yng nghyfarfodydd grŵp datblygu achosion ieuenctid a chaiff achosion penodol eu dadansoddi er mwyn gwneud cynnydd. Mae Llys y Goron Caerdydd yn cadw taenlenni o dreialon troseddwyr ifanc, caiff pob achos ei ystyried yn fisol a rhoddir manylion i'r Penaethiaid Unedau perthnasol i'w dadansoddi.

- Mae'r gyfradd treialon effeithiol yn well na'r gyfradd genedlaethol, er bod y perfformiad wedi gwaethygu ychydig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (56.6%). Mae'r gyfradd treialon chwâl (33.7% o gymharu â 39.5%) a'r gyfradd treialon aneffeithiol (11.7% yn erbyn 12.4%) hefyd yn well ac mae'r olaf ohonynt yn rhagori ar darged yr Ardal a'r targed cenedlaethol. Mae'r gyfradd treialon chwâl yn debyg i'r perfformiad yn 2005-06 (33.6%) ond mae'r gyfradd treialon aneffeithiol wedi gostwng (9.8%). Mae'r gyfradd treialon aneffeithiol y gellir eu priodoli i'r erlyniad yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol (32.3% o gymharu â 37.9%).

- Caiff perfformiad ei drafod mewn cyfarfodydd tîm a'i fwydo'n ôl mewn bwletinau rhanbarthol. Caiff perfformiad rhanbarthol ei fonitro gan Benaethiaid Unedau a'i drafod gan y DMTs a chyflwynir adroddiad arno yn yr adolygiadau perfformiad chwarterol. Mae'r CPOs a'r WCMs hefyd yn ymgymryd â dadansoddiad o gyfraddau treialon chwâl a threialon aneffeithiol er mwyn casglu gwersi i'w dysgu y gellir eu hymgorffori yn y gwaith o ddatblygu gwaith achos yn y dyfodol a sicrhau bod ffurflenni monitro'r llysoedd yn cofnodi'r rhesymau cywir.

- Mae Penaethiaid Unedau yn cyfarfod â'u cymheiriaid yn Llys y Goron i drafod perfformiad. Fodd bynnag, o ganlyniad i newid mewn personél, mae'r system hon wedi'i hatal yn Rhanbarth Merthyr er bod trafodaethau ar y gweill gyda'r bwriad o'i hailsefydlu. Cynhelir trafodaethau ar berfformiad gyda phartneriaid hefyd mewn cyfarfodydd PTPM a chyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr y Llys.

- Y gyfradd ar gyfer y defnydd o CMS ar gyfer adolygiadau Llys y Goron oedd 87.2%, na chyrhaeddodd darged yr Ardal na'r targed cenedlaethol o 90%. Fodd bynnag, gwelwyd gwelliant sylweddol drwy gydol y flwyddyn, gan ddechrau ar ganran sylfaen isel o 44.2% ac roedd y perfformiad yn uwch na 90% am saith mis.

| 4 DATBLYGU ACHOSION YN Y LLYS | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Sefydlog** |

**4A Mae'r Ardal yn sicrhau bod achosion yn cael eu datblygu ym mhob ymddangosiad llys**

- Mae'r Ardal wedi cymryd camau yn fewnol ac ar y cyd i wella datblygiad achosion drwy'r llysoedd. Mae'n dibynnu ar y gweithdrefnau yn ystod y cam cyn cyhuddo i sicrhau bod achosion yn cael eu datblygu gymaint â phosibl yn y gwrandawiad cyntaf a bod cytundeb â Heddlu De Cymru i ddarparu ffeiliau ar frys y diwrnod cyn y gwrandawiad cyntaf. Er na chaiff cyfraddau cyflawni ar gyfer y gwrandawiad cyntaf eu monitro mae'r cyfraddau pledio'n euog ar gyfer achosion cyn cyhuddo yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron yn gyson uchel. Trafodir gwybodaeth am berfformiad mewn perthynas â chyfraddau pledio'n euog yn y cyfarfodydd misol a gynhelir ar y cyd â'r heddlu a'r llysoedd.

- Ymgymerir â'r gwaith o fonitro cyfarwyddiadau i'r cwnsler a pharatoi achosion fel rhan o'r system CQA, a ategir gan asesiadau manwl o gyfreithwyr unigol. Rhoddir sicrwydd i uwch reolwyr bod cyfarwyddiadau yn cynnwys dadansoddiad achos a chyfarwyddiadau cywir o ran pleon. Dangosodd y gwiriadau realiti bod rhywfaint o amrywiad mewn perfformiad; cafwyd dwy enghraifft o gyfarwyddiadau ardderchog ac un lle na ddarparwyd llawer o wybodaeth gyda'r ddealltwriaeth y byddai'r cwnsler yn ailddrafftio'r ditiad. Mae disgwyliad y bydd pob achos a gyflwynir i'r Uned HCA yn cynnwys cyfarwyddiadau priodol.

- Mae'r cyfarwyddiadau i'r cwnsler yn amserol; mae De Cymru yn llawer gwell na'r cyfartaledd cenedlaethol, ar 92.4% o gymharu â 78.3%. Roedd amseroldeb achosion ditiadwy yn ystod 2006 hefyd yn llawer gwell na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 34 diwrnod o gymharu â 52. Mae hynny'n welliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol, sef 11 diwrnod. Mae'r Ardal yn monitro safonau a briffiadau'r Bar, a thrafodir perfformiad gyda phenaethiaid y siambrau.

- Cynhelir mwy o sesiynau yn y llys yn fewnol (82.2%) na'r cyfartaledd cenedlaethol (80.4%), sy'n welliant o'r flwyddyn flaenorol. Y nod yw sicrhau cydbwysedd o dri diwrnod yn y llys a dau ddiwrnod yn y swyddfa yr wythnos i erlynwyr er mwyn iddynt gael digon o amser i baratoi achosion. Fodd bynnag, mae prinder staff wedi golygu bod cyfreithwyr wedi gorfod ymgymryd â mwy o sesiynau yn y llys. Paratoir rotas wythnos ymlaen llaw ac mae'r rhanbarthau yn ceisio sicrhau bod cyfreithwyr yn gweithio ar eu treialon eu hunain mewn achosion mwy cymhleth, sy'n cynorthwyo gyda'r gwaith paratoi. Caiff arbenigwyr eu dosbarthu i'r llysoedd ieuenctid a'r Llysoedd Arbenigol ar gyfer Trais yn y Cartref a dewisir cwnsleriaid yn benodol i erlyn achosion sy'n ymwneud â throseddau rhywiol.

- Mae'r Uned HCA yn cynnwys eiriolwyr llawn amser sy'n ymgymryd â threialon yn rheolaidd ac mae unigolion wedi gweithredu fel aelodau o staff iau mewn nifer o achosion mwy cymhleth. Mae'r ymrwymiad i ddefnyddio HCA nid yn unig wedi arwain at arbedion ariannol ond at fuddiannau eraill hefyd, yn cynnwys gwaith achos o ansawdd

gwell. Mae Cynllun Busnes yr Ardal ar gyfer 2007-08 yn blaenoriaethu gwelliant mewn safonau eiriolaeth gydag amcanion penodol i gynyddu nifer y treialon yr ymgymerir â hwy gan yr HCAs, cynyddu eiriolaeth POCA arbenigol a sicrhau lleihad yn y defnydd a wneir o asiantau mewn achosion mwy cymhleth.

- Mae pob eiriolwr yn ymwybodol o'r gofyniad i fod yn bresennol yn y llys mewn da bryd er mwyn bod ar gael i staff y llys, yr amddiffyniad a chyfreithwyr. Cynhelir gwaith monitro eiriolaeth er mwyn asesu perfformiad yn erbyn y safonau eiriolaeth cenedlaethol yn ogystal â'r ddarpariaeth gwasanaeth gyffredinol yn y llys. Mae partneriaid cyfiawnder troseddol hefyd yn rhoi adborth anffurfiol.

- Mae'r Ardal yn annog rhagweithioldeb wrth gyfrannu at y broses o ddatblygu achosion ym mhob gwrandawiad, a ategir gan CPOs ar gyfer gwaith y tu allan i'r llys. Yn y llysoedd ynadon, chwe wythnos yw'r cyfnod rhwng pennu'r dyddiad a chynnal y treial fel arfer ac mae adborth yn awgrymu bod y CPS yn ymrwymedig i gyflawni hyn.

- Mae amseroldeb yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob agwedd ar y gwaith. Mae'r broses o gyflwyno papurau i'r amddiffyniad (81.2%) yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 71.5% ac mae'r gyfradd dirwyn i ben ar y trydydd gwrandawiad neu wrandawiadau dilynol hefyd ychydig yn well, sef 58.9% o gymharu â 59.2% yn genedlaethol. Yn ogystal, mae cyfraddau amseroldeb ar gyfer pleon euog a threialon oedolion a phleon euog cychwynnol a threialon ieuenctid yn well na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd adborth a ddarparwyd mewn ymateb i holiaduron HMCPSI yn awgrymu bod partneriaid cyfiawnder troseddol yn teimlo rhywfaint o rwystredigaeth yn sgîl anallu rhai erlynwyr yn y llys i wneud penderfyniadau priodol a rhywfaint o ddirywiad o ran bod yn barod am wrandawiadau yn y llysoedd ynadon.

- Yn Rhanbarth Abertawe, llwyddwyd i negodi rhestrau llai gyda'r llysoedd ynadon i adlewyrchu'r lleihad yn y llwyth achosion a'r rhestrau ysgafnach yn y llysoedd o ganlyniad i hynny. Gwelwyd llai o lwyddiant o ran y trafodaethau yn y ddau ranbarth arall, sy'n ardaro ar yr Ardal sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Ceir protocol ar y cyd ar gyfer rhestru achosion lle defnyddir yr iaith Gymraeg.

- Nid yw'r Ardal yn casglu data ar nifer y gohiriadau ac amseroldeb cyffredinol achosion - cesglir y data hwn gan y llysoedd ynadon ond ni chaiff ei ledaenu yn rheolaidd. Mae nifer gyfartalog y gohiriadau fesul achos yn y llys ynadon a Llys y Goron yn gymaradwy â'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda dwy o'r tair cyfradd ychydig yn well.

- Yn ystod 2006-07, cafwyd pedwar gorchymyn costau a wastraffwyd yn Abertawe ac un yn Llys y Goron Caerdydd; ni oedd unrhyw dueddiadau adnabyddadwy. Caiff gorchmynion costau a wastraffwyd eu hystyried gan y Timau Rheoli Rhanbarthol ac yn yr adolygiadau perfformiad rhanbarthol chwarterol gyda'r CCP a'r ABM.

| 5 ACHOSION SENSITIF A THROSEDDAU CASINEB | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Sefydlog** |

**5A Mae'r Ardal yn nodi ac yn rheoli achosion sensitif (yn cynnwys troseddau casineb[6]) yn effeithiol**

- Mae'r Ardal yn sicrhau bod achosion sensitif yn cael eu hadolygu a'u rheoli'n briodol. Mae pob cyfreithiwr wedi'i hyfforddi i ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â thrais yn y cartref, troseddau a waethygir gan hil a throseddau homoffobig. Pennir arbenigwyr i ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â honiadau o drais rhywiol, cam-drin plant a throseddau traffig ffordd angheuol pan gyflwynir ffeiliau cyngor ysgrifenedig a gall cyfreithwyr ar ddyletswydd mewn canolfannau cyhuddo gysylltu ag arbenigwyr am gyngor ar y cam cyn cyhuddo. Cyfeirir achosion o drais rhywiol at arbenigwr pan gynigir na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach a sicrheir ansawdd penderfyniadau cyn cyhuddo sy'n ymwneud â throseddau traffig ffordd angheuol gan y CCP. Cadarnhaodd gwiriadau realiti fod achosion yn cael eu trin yn briodol a bod polisïau'r CPS yn cael eu cymhwyso'n briodol.

- Mae Penaethiaid Unedau yn monitro ansawdd penderfyniadau cyn cyhuddo drwy broses samplu ar hap. Caiff troseddau casineb ac achosion sensitif eu hystyried hefyd fel rhan o'r system CQA, a ategir gan asesiadau ychwanegol o gyfreithwyr. Yn ogystal, ym mhob achos lle y cynigir y dylid dirwyn achos i ben mae'r Ardal yn sicrhau y ceisir awdurdod y Penaethiaid Unedau. Caiff pob adroddiad ar achosion anffafriol ei adolygu gan Benaethiaid Unedau er mwyn sicrhau bod cyfreithwyr unigol a'r uned berthnasol yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella.

- Mae hyrwyddwyr ac arbenigwyr effeithiol wedi'u penodi ac fe ymgynghorir â hwy lle y bo'n briodol mewn achosion sensitif. Mae gan bob pwnc arbenigol erlynydd arweiniol ym mhob un o'r tri rhanbarth ac mae hyrwyddwyr neu gydgysylltwyr Ardal hefyd sy'n gyfrifol am agweddau allweddol ar waith achos sensitif. Mae gan yr arbenigwyr a'r hyrwyddwyr amcanion personol sy'n gysylltiedig â'u rolau ac mae'r cydgysylltwyr yn dilyn y disgrifiadau swydd a anfonwyd gan Bencadlys y CPS. Mae pob arbenigwr wedi'i hyfforddi yn ei faes arbenigedd ei hun ac yn aml yn arwain y gwaith o hyfforddi cyfreithwyr eraill.

- Cedwir cofnod o achosion difrifol ac achosion sensitif ym mhob rhanbarth. Mae hyn yn sicrhau bod achosion proffil uchel yn cael eu dwyn at sylw'r CCP a fydd, mewn cydweithrediad â Swyddog Cyfathrebu'r Ardal, yn datblygu dull o weithredu o ran y cyfryngau a datganiad ffurfiol. Mae Heddlu De Cymru yn rhoi hysbysiad cynnar o achosion proffil uchel ac mae cyfreithwyr yn sicrhau y caiff achosion sy'n cael sylw'r cyfryngau eu nodi ar CMS.

- Mae'r Llys Arbenigol ar gyfer Trais yn y Cartref (SDVC) yng Nghaerdydd yn sefydledig a dyma'r prif lys ar gyfer yr Ardal. Mae SDVCs ychwanegol ym Mhontypridd, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot. Maent yn gweithredu system llwybr carlam ar gyfer achosion sy'n ymwneud â honiadau o drais yn y cartref a chaiff treialon eu rhestru hefyd pan fo modd gwneud hynny. Mae'r arbenigwyr rhanbarthol yn ymwneud yn helaeth â gwaith amlasiantaethol ac mae un ohonynt yn aelod o is-grŵp trais yn y cartref LCJB. Mae cysylltiadau rhwng Rhanbarth

6 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth mae pob cyfeiriad yn hyn o beth at achosion sensitif yn cynnwys pob un sy'n ymwneud â throseddau casineb (troseddau casineb o ran anabledd, trais yn y cartref, troseddau homoffobig, hiliol a chrefyddol), cam-drin plant/tystion sy'n blant, trais rhywiol, troseddau traffig ffordd angheuol a gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBOs).

Merthyr a'r ganolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol ym Merthyr Tudful ac mae grŵp prosiect wedi derbyn arian i sefydlu safle yng Nghaerdydd. Mae'r Pennaeth Rhanbarthol wedi bod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd i roi persbectif y CPS ar reolaeth effeithiol o'r agwedd hon ar waith achos.

- Fel arfer, mae'r Ardal yn nodi achosion sensitif at ddibenion monitro a chadarnhaodd y gwiriadau realiti fod 21 o'r 23 o achosion perthnasol wedi'u nodi'n gywir ar CMS. Cynhyrchir adroddiadau System Gwybodaeth Reoli gan y Swyddog Perfformiad yn fisol er mwyn sicrhau y caiff achosion eu cofnodi. Mae'r Ardal yn hyderus bod y broses o nodi pob trosedd casineb yn mynd rhagddi. Fodd bynnag nodwyd bod angen sicrhau gwelliant mewn perthynas ag achosion o drais rhywiol.

- Caiff adolygiadau thematig HMCPSI a pholisïau newydd neu ddiwygiedig y CPS eu dosbarthu a'u trafod yng nghyfarfodydd Bwrdd Strategol yr Ardal, lle mae adroddiadau'r Arolygiaeth yn eitem reolaidd ar yr agenda. Nodir arweinwyr lle y bo'n briodol i fynd â gwaith rhagddo ar lefel Ardal neu ranbarth, er enghraifft, mae canllawiau ar drais yn y cartref a thrais rhywiol wedi'u drafftio a'u dosbarthu gan Benaethiaid Rhanbarthol, ac mae protocolau'r Ardal ar gyfer trais rhywiol a throseddau traffig ffordd angheuol wedi'u datblygu.

- Mae cyfran y troseddau casineb sy'n arwain at ganlyniad aflwyddiannus wedi lleihau o 45.2% yn 2005-06 i 34.6% yn 2006-07, sy'n well na'r targed cenedlaethol. Nodir canlyniadau troseddau casineb yn yr adroddiadau perfformiad misol rhanbarthol ac fe'u hystyrir yn y cyfarfodydd perfformiad rhanbarthol chwarterol. Monitrir canlyniadau ym mhob categori o achosion troseddau casineb yn ogystal â honiadau o drais rhywiol a throseddau traffig ffordd angheuol. Gwneir rhywfaint o waith dadansoddi hefyd mewn perthynas ag achosion o droseddau casineb lle caiff y cyhuddiad ei leihau neu ei newid. Mae'n rhaid i bob achos gael ei awdurdodi gan Bennaeth Uned cyn iddo gael ei ddirwyn i ben. Yn ogystal, yng Nghaerdydd mae ffurflen wedi'i datblygu sy'n rhaid ei chwblhau pan fo cyfreithiwr yn ystyried dirwyn achos o drais yn y cartref i ben. Caiff y ffurflenni eu dadansoddi gan y cydgysylltydd rhanbarthol.

- Mae diwallu anghenion merched a phlant wedi'i nodi fel blaenoriaeth yng Nghynllun Busnes yr Ardal ar gyfer 2007-08 ac yn benodol felly mewn perthynas â monitro a gwella canlyniadau llwyddiannus ar gyfer achosion o drais yn y cartref a thrais rhywiol. Mae hyrwyddwyr ac arbenigwyr yn gweithio ar achosion o gam-drin plant ac achosion ieuenctid ond, hyd yn hyn, nid oes arweinydd penodol ar gyfer Siarter Plant a Phobl Ifanc y CPS i gysylltu'r elfennau amrywiol sy'n ymwneud â diogelu plant, er bod y polisi wedi'i ddosbarthu. Mae cysylltiadau rhwng yr Ardal a'r Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (LSCBs) a Phaneli Diogelwch Cymunedol drwy'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ac, yn Rhanbarth Merthyr, mae un o'r Penaethiaid Uned yn derbyn cofnodion gan yr LSCB fel bod y rhanbarth yn cael ei hysbysu o faterion lleol. Yn Abertawe, mae protocol ar y cyd gyda'r NSPCC ar gyfer plant sy'n rhoi tystiolaeth drwy gyswllt fideo o bell ac, yng Nghaerdydd, cynhelir cynadleddau asesu risg amlasiantaethol fel rhan o 11 elfen SDVC. Lle cynhaliwyd MARAC, caiff ei ystyried gan yr erlynydd ar ddyletswydd fel rhan o'r adolygiad o'r ffeil.

| 6 DATGELU | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gwael | **Gwael** | **Wedi gwella** |

### 6A Ceir cydymffurfiaeth â dyletswyddau datgelu'r erlyniad

- Yn ystod yr OPA diwethaf, nodwyd bod yr agwedd hon ar waith CPS De Cymru yn 'Wael'. Maent wedi mynd i'r afael â'r broses o wella perfformiad datgelu drwy brosiect penodol a arweiniwyd gan Bennaeth Rhanbarthol, sydd wedi bod yn Hyrwyddwr Datgelu ers mis Ionawr 2006. Mae datgelu hefyd wedi'i nodi fel blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes ar gyfer 2006-07 a'r cynllun presennol, a nodir manylion gwrthfesurau yn y gofrestr risgiau.

- Mae'r Ardal wedi ymgymryd â gwaith sylweddol, gyda chanlyniadau amrywiol ar draws y rhanbarthau. Mae'r Llawlyfr a'r canllawiau datgelu wedi'u rhoi i bob cyfreithiwr, mae pecyn datgelu wedi'i ddatblygu ac mae hyfforddiant wedi'i gynnal. Mae pob erlynydd hefyd wedi cwblhau modiwlau datgelu Coleg Erlyn y CPS a ategwyd gan sesiynau dilynol yn yr unedau i roi sicrwydd o effeithiolrwydd yr hyfforddiant i reolwyr. Mae'r Ardal wedi datblygu a dosbarthu dogfen arfer gorau a chynhyrchir canllawiau rhanbarthol yn ôl y gofyn. Bwriedir cynnal hyfforddiant datgelu lefel uwch i bob erlynydd yn ystod y flwyddyn bresennol. Eir i'r afael â gwaith datgelu gydag unigolion, mewn cyfarfodydd tîm ac yn yr adolygiadau perfformiad rhanbarthol chwarterol gyda'r CCP a'r ABM. Mae gweithdrefnau a disgwyliadau wedi'u trafod hefyd mewn cyfarfodydd gweithwyr achos.

- Cynhaliodd yr Ardal ei hadolygiad thematig ei hun o waith datgelu yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2006. Dewiswyd sampl ar hap o ffeiliau pob erlynydd, cynhaliwyd asesiadau o gynnydd ym mhob uned a lluniwyd cynllun gweithredu yn nodi meysydd ar gyfer gwella. Adolygwyd yr adolygiad, ac mae'n parhau i gael ei wneud, gan waith samplu ar hap a gwiriadau CQA yn cynnwys manylion canfyddiadau gyda'r canlyniadau yn cael eu bwydo'n ôl i gyfreithwyr unigol. Rhoddwyd amcanion i gyfreithwyr er mwyn iddynt fynd i'r afael â materion perfformiad unigol.

- Mae'r hyrwyddwr wedi monitro cynnydd ac unrhyw welliannau sydd wedi deillio o'r prosiect datgelu drwy adroddiadau statws rhanbarthol. Roedd yr adroddiadau hyn yn nodi perfformiad ym mhob uned a rhanbarth ynghyd â meysydd arfer da a meysydd ar gyfer gwella.

- Roedd yr Ardal hefyd yn destun gwerthusiad allanol gan dîm adolygu Pencadlys y CPS. Roedd yr adborth ar y pryd yn dynodi gwelliannau sylweddol a thrafodwyd canfyddiadau penodol gydag unigolion, er na chyflwynwyd unrhyw adroddiad ffurfiol.

- Yn ogystal, cynhaliodd HMCPSI adolygiad datgelu thematig o ddeunydd nas defnyddiwyd ar draws y CPS, a oedd yn cynnwys archwilio sampl o ffeiliau o Dde Cymru. Dangosodd y ffeiliau, a gwblhawyd yn ystod 2006-07, fod perfformiad cymysg ar draws y rhanbarthau, gyda llawer ohono'n llai na boddhaol. Fodd bynnag, nododd sampl ar hap o ffeiliau mwy diweddar o Abertawe fod gwelliant sylweddol wedi'i weld. Canfu'r Arolygiaeth fod y gwaith o ymdrin ag achosion mawr ac achosion mwy cymhleth yn eithaf da ar y cyfan.

- Gwelwyd gwelliant parhaus yn Rhanbarth Abertawe ers diwedd y prosiect datgelu. Yng Nghaerdydd, mae'r broses o sicrhau perfformiad gwell wedi bod yn un araf iawn, ond cydnabyddir bellach ei fod wedi gwella. Er bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud, ac er gwaethaf y ffocws a roddwyd i waith datgelu ac ymrwymiad rheolwyr yn y rhanbarth, mae'r perfformiad ym Merthyr yn dal i fod yn wan.

- Dangosodd y gwiriad realiti a gynhaliwyd fel rhan o'r asesiad hwn nad oedd cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd ddatgelu gychwynnol, yn bennaf o ran arnodi rhestrau, ym mhedair o'r naw ffeil berthnasol. Ni chydymffurfiwyd â'r ddyletswydd ddatgelu barhaus yn nhri o'r pedwar achos perthnasol - naill ai oherwydd bod datganiad yr amddiffyniad yn annigonol ac ni chafodd ei wrthod neu am na chymerwyd unrhyw gamau dilynol pan fethodd yr heddlu ag ymateb i gyflwyno datganiad yr amddiffyniad. Mewn chwech o'r naw achos perthnasol, nid oedd unrhyw dystiolaeth fod y cyfreithiwr wedi ystyried y rhestrau o ddeunydd sensitif. Roedd y rhan fwyaf o'r diffygion a nodwyd, ond nid pob un, yn ymwneud â'r ffeiliau o Ranbarth Merthyr.

- Mae fformat ffeiliau'r Ardal yn darparu ffolder datgelu ar gyfer pob ffeil gyda thaflen cofnodion datgelu (DRS) wedi'i hatodi. Mae angen iddi sicrhau bod y ffolder yn cael ei ddefnyddio a bod llwybr archwilio cyflawn yn cael ei gynnal ar y DRS ym mhob achos perthnasol. Mae hwn yn fater sydd wedi'i amlygu mewn asesiadau rhanbarthol ac sydd wedi'i gadarnhau yn ystod y gwiriadau realiti a gynhaliwyd ar ffeiliau a archwiliwyd ar y safle. Mewn chwech o'r deg achos perthnasol, ni ddefnyddiwyd y DRS i ddarparu llwybr archwilio clir o benderfyniadau a chamau gweithredu ac, mewn sawl achos, nid oedd copïau o lythyrau a anfonwyd yn y ffolder nac mewn mannau eraill ar y ffeil.

- Mae'r gyfradd treialon aneffeithiol yn y llysoedd ynadon am nad yw'r erlyniad yn barod oherwydd problemau datgelu yn llawer gwaeth (5%) na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 1.9%. Mae gwahaniaeth amlwg mewn perfformiad ar draws y rhanbarthau unigol yn hyn o beth.

- Mae'r CPS yn gweithio gyda Llys y Goron i wella'r ffordd yr ymdrinnir â deunydd nas defnyddiwyd. Cytunwyd ar brotocol ar reoli deunydd nas defnyddiwyd sy'n nodi dyletswyddau'r farnwriaeth, disgwyliadau CPS, materion imiwnedd budd y cyhoedd (PII) a datgeliadau trydydd parti ymhlith pethau eraill. Mae'r flaenoriaeth a nodir yn y cynllun busnes o ran datgelu yn cynnwys rhoi'r gorau i anghydymffurfiaeth gan y Bar a'r farnwriaeth fel un o'r amcanion.

- Mae'r Ardal wedi cynnal cyfres o drafodaethau gyda Heddlu De Cymru i bwysleisio bod angen gwelliant, wedi helpu i ddatblygu canllawiau ar gyfer swyddogion ac wedi darparu grŵp craidd o gyfreithwyr i gynorthwyo gyda hyfforddiant yr heddlu. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r heddlu i geisio sicrhau bod copïau o ddeunydd yn cael eu darparu gyda'r rhestrau ac mae hyn wedi arwain at wahanol raddau o lwyddiant. Rhoddir cyfarwyddiadau i gyfreithwyr ddychwelyd rhestrau lle nad yw'r disgrifyddion yn ddigonol.

- Y Penaethiaid Rhanbarthol sy'n ymdrin â'r holl ddeunydd sensitif. Mae'r rhestrau o ddeunydd sensitif yn cofnodi natur y deunydd a welwyd gan fod y deunydd hwnnw yn cael ei gadw gan yr heddlu fel arfer. Cedwir cofnod PII ym mhob rhanbarth hefyd gan y Pennaeth Rhanbarthol a chaiff y cofnodion eu storio'n ddiogel.

| 7 TERFYNAU AMSER CADWRAETH | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Wedi gwella** |

**7A Mae systemau terfynau amser cadwraeth yr Ardal yn cydymffurfio â chanllawiau presennol y CPS a chyfraith achosion**

- Mae'r Ardal wedi ymgymryd â gwaith sylweddol ers yr OPA diwethaf yn 2005. Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r system terfyn amser cadwraeth (CTL) ym mis Gorffennaf 2006, a nodwyd camau gweithredu sydd wedi'u rhoi ar waith. Mae'r Cynllun Busnes ar gyfer 2007-08 yn nodi CTLs fel risg ac mae gwrthfesurau wedi'u rhoi ar waith.

- Mae system ysgrifenedig ddiweddar ar waith sy'n cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf ac sydd hefyd yn cynnwys llawer o'r canllaw arfer da. Ymgymerir â gwaith monitro drwy gasglu sampl ar hap o ffeiliau yn fisol. Mae gweithdai wedi'u cynnal ym mhob rhanbarth ac mae hyfforddiant yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod pob un o'r rheolwyr gweinyddol perthnasol yn cael eu hyfforddi. Sicrheir bod pob aelod newydd o staff yn ymwybodol o bwysigrwydd glynu wrth y gweithdrefnau a thrafodir CTLs yng nghyfarfodydd tîm yr uned.

- Y Penaethiaid Rhanbarthol a Phenaethiaid Unedau yw'r arweinwyr CTL ar lefel leol. Mae hyrwyddwr Ardal hefyd a gynhaliodd adolygiad ym mis Mehefin 2007. Yn sgîl yr adolygiad hwn, nodwyd bod anghysondebau rhwng y rhanbarthau a bod graddau'r gydymffurfiaeth â system yr Ardal yn amrywio. Cafodd rhai o'r canfyddiadau hyn eu cadarnhau gan y gwiriadau realiti, yn benodol, nid oedd unrhyw dystiolaeth o gytundeb â'r llysoedd a thystiolaeth gyfyngedig bod y gwiriadau rheoli wedi'u cynnal. Mae angen i'r Ardal sicrhau bod cydymffurfiaeth gyson â'i system, bod y taflenni adolygu CTL sydd wedi'u hatodi i'r ffeiliau yn cael eu defnyddio'n llawn, a bod y ffeiliau'n cael eu harnodi i ddangos cydymffurfiaeth.

- Roedd methiant CTL yn ystod y cyfnod asesu diwethaf yn 2005-06 a methiant pellach yn ystod 2006-07. Yn yr achos olaf, lluniwyd adroddiad llawn a oedd yn cynnwys gwersi i'w dysgu. Yn unol â chyfarwyddiadau cenedlaethol, cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan y CCP i Bencadlys y CPS. Ni chafwyd unrhyw fethiannau yn ystod y flwyddyn bresennol.

- Cytunwyd ar brotocol gyda Gwasanaeth Llysoedd EM ym mis Hydref 2006 sy'n rhoi cadarnhad o'r CTL yn y gwrandawiad cyntaf yn y llys ynadon a Llys y Goron, cadarnhad o ddyddiadau'r estyniad yn y llys agored a dyddiadau dod i ben ar gyfer diffynyddion a ddychwelir i'r ddalfa ar ôl cyfnod ar fechnïaeth. Dosbarthwyd y protocol i'r siambrau gyda llythyr esboniadol yn nodi manylion disgwyliadau'r cwnsler mewn perthynas â CTLs. Mae rheolwyr yr unedau yn cadarnhau dyddiadau dod i ben gyda'r llysoedd ynadon os yw asiant wedi erlyn unrhyw achos gyda CTL.

- Mae'r Ardal yn disgwyl y caiff CMS ei defnyddio'n llawn ym mhob achos sy'n cynnwys CTL. Defnyddir rhestrau tasgau CMS i fonitro effeithiolrwydd y system a chaiff achosion eu gwirio'n ddyddiol. Cwblheir tystysgrifau sicrwydd wythnosol gan reolwyr ym mhob uned i gadarnhau bod yr achosion hyn wedi'u monitro, a chânt eu gwirio a'u hadlofnodi gan Bennaeth yr Uned cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Pennaeth Rhanbarthol. Cyflwynir adroddiadau ar CTLs yn y cyfarfodydd rhanbarthol chwarterol gyda'r CCP a'r ABM. Mae'r gwiriadau rheoli wedi nodi gwallau ac mae camau adferol wedi'u cymryd ar unwaith.

| 8 Y GWASANAETH I DDIODDEFWYR A THYSTION | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Sefydlog** |

**8A Mae'r Ardal yn sicrhau y caiff anghenion dioddefwyr a thystion eu hystyried a'u diwallu'n amserol ac yn effeithiol**

- Yn 2006-07, anfonwyd 79% o lythyrau i ddioddefwyr o dan y cynllun Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr (DCV) o fewn y targed o bum diwrnod, sy'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 73%. Cynyddodd yr adegau hynny pan nodwyd bod angen anfon llythyr yn raddol o bwynt isel o 16.6% ym mis Rhagfyr 2005 i 90.3% o'r targed dirprwy yn y 12 mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2007.

- Canfu adolygiad o'r cynllun DCV ym mis Rhagfyr 2006 gan yr Uned Gyflawni i Ddioddefwyr (VDU) fod cydymffurfiaeth gyffredinol â'r gofynion i nodi dioddefwyr yn glir, roedd ffeiliau â dioddefwr y gellir ei adnabod wedi'u marcio ac roedd statws y dioddefwr wedi'i nodi ar CMS. Cadarnhaodd y gwiriadau realiti a gynhaliwyd fel rhan o'r asesiad hwn fod statws y dioddefwr wedi'i nodi mewn wyth o'r deg o achosion penderfyniadau cyn cyhuddo a archwiliwyd.

- Mae cyfreithwyr yn gyfrifol am ddrafftio'r rhan fwyaf o'u llythyrau eu hunain i ddioddefwyr, ac eithrio llythyrau safonol mewn rhai achosion, er enghraifft yn achos dioddefwr sy'n tynnu'n ôl pan gaiff ei ddrafftio gan reolwr gweinyddol ar gyfer ei lofnodi gan y cyfreithiwr.

- Mae ansawdd y llythyrau yn amrywio. Mae rhai ohonynt yn gynhwysfawr ac wedi'u hysgrifennu mewn Saesneg clir, tra bod eraill naill ai'n fyr iawn neu wedi'u hysgrifennu'n wael. Canfu detholiad ar hap o lythyrau ar CMS fod rhai ohonynt wedi'u drafftio yn ôl pob golwg ond heb eu hanfon a bod un ohonynt wedi'i ysgrifennu mewn ffordd gwta iawn ac wedi'i gyfeirio, mewn camgymeriad yn ôl pob tebyg, i'r dioddefwr gan ddefnyddio ei gyfenw a heb gynnwys teitl.

- Pan gynghorir na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach, heb ymgynghoriad wyneb yn wyneb rhwng yr erlynydd ar ddyletswydd a swyddog yr heddlu, cyfrifoldeb y CPS yw hysbysu'r dioddefwr ac esbonio'r penderfyniad. Mae cyfran uchel yr achosion o gyngor ysgrifenedig a ddarperir yn golygu y dylid anfon llythyrau mewn nifer fawr o achosion o'r fath. Yn achos tystion diamddiffyn a thystion sydd wedi'u bygylu, rhaid anfon llythyr yn eu hysbysu o'r penderfyniad o fewn 24 awr. Nid oes cydymffurfiaeth lawn â'r gofyniad hwn ac mae'r Ardal yn cydnabod hynny, ond ni chesglir unrhyw ddata ar yr agwedd hon ar y Cod i Ddioddefwyr. Canfu adolygiad gan y VDU fod diffyg ymwybyddiaeth o'r angen i flaenoriaethu tystion diamddiffyn a thystion sydd wedi'u bygylu.

- Mae'r trefniadau ar gyfer bodloni gofynion DCV neu'r Cod i Ddioddefwyr yn amrywio rhwng rhanbarthau ac nid oes gan yr Ardal unrhyw weithdrefnau safonol. Er bod rheolwyr gweinyddol yn gweithredu fel cydgysylltwyr rhanbarthol, nid oes cydgysylltydd Ardal fel yr argymhellwyd gan yr adolygiad a gynhaliwyd gan y VDU. Fodd bynnag, mae Rheolwr Prosiect yr Ardal wedi darparu hyfforddiant ar y Cod i Ddioddefwyr i reolwyr uned a staff yr Uned Gofal Tystion a gall y rheolwr hwnnw ddefnyddio modiwl e-ddysgu perthnasol y Coleg Erlyn.

- Dylai'r heddlu wneud asesiadau o anghenion cychwynnol ar yr adeg y cymerir datganiad a'u cofnodi ar gefn y ffurflen datganiad (MG11). Canfu'r adolygiad terfynol o'r WCUs mai dim ond

20% a gwblhawyd yn llawn ac mae camau wedi'u cymryd gan yr heddlu i wella hyn. Caiff Erlynwyr ar Ddyletswydd eu cyfarwyddo i geisio'r wybodaeth angenrheidiol gan y swyddog ac i wrthod MG11s nad ydynt wedi'u cwblhau, er na chaiff hyn ei wneud bob amser. Mae gweithdrefnau ar waith ym mhob rhanbarth i sicrhau bod mesurau arbennig yn cael eu cymhwyso lle y bo'n bosibl.

- Mae nifer y treialon a gaiff eu gadael, ynghyd â system rybuddio gyffredinol a weithredir yng Nghaerdydd, yn effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir gan y WCUs sy'n arwain at ddat-rybuddio ac ail-rybuddio tystion dro ar ôl tro. Mae hyn yn creu gwaith ychwanegol i swyddogion gofal tystion a phryder diangen i dystion o bosibl.

- Mae pob erlynydd wedi cael copi o Addewid yr Erlynwyr, fodd bynnag, nid yw'r agwedd hon ar eu rôl yn y llys wedi'i chynnwys yn benodol mewn gwaith monitro eiriolaeth. Byddai rheolwyr rhanbarthol yn disgwyl cael adroddiadau ffurfiol neu anffurfiol gan ddefnyddwyr eraill y llys os yw ymddygiad cyfreithwyr tuag at ddioddefwyr yn amhriodol.

- Mae adborth gan y Gwasanaeth Tystion am y ffordd y mae staff y CPS yn ymdrin â thystion yn y llys yn gadarnhaol er y ceir rhai anawsterau weithiau oherwydd patrymau rhestru, yn enwedig gor-restru treialon.

**8B Mae'r Ardal, ar y cyd â'i phartneriaid cyfiawnder troseddol, wedi cyflwyno'r cynllun Dim Tyst, Dim Cyfiawnder (NWNJ) yn effeithiol**

- Ceir tair WCU, un ar gyfer pob un o'r rhanbarthau. Ar adeg yr adolygiad terfynol, roedd uned Merthyr wedi'i lleoli ar bedwar safle ac uned Caerdydd ar ddau; mae'r ddwy ohonynt bellach wedi symud i un safle. Mae'r unedau yng Nghaerdydd ac Abertawe wedi'u lleoli ar safle'r CPS, tra bod uned Merthyr wedi'i lleoli mewn gorsaf heddlu. Caiff y tair ohonynt eu staffio gan bersonél yr heddlu a'r CPS ar sail gyfartal fwy neu lai ac mae rheolwr yr heddlu a rheolwr y CPS yn gweithio ym mhob un. Roedd cynrychiolydd y Gwasanaeth Tystion yn gweithio yn yr uned yng Nghaerdydd yn ystod rhan o 2006-07. Ariannwyd y cynrychiolydd hwn gan yr LCJB, ond ni fu'n bosibl parhau â hyn yn 2007-08.

- Cafodd y WCUs eu cymeradwyo yn yr adroddiad adolygu terfynol am ymgysylltu â'r gymuned, hyfforddi Swyddogion Gofal Tystion, y system sicrwydd ansawdd ar gyfer MG11s ac amseroldeb y wybodaeth a roddwyd i ddioddefwyr a thystion. Canfu'r adolygiad fod dioddefwyr a thystion, ar y cyfan, yn cael gwybodaeth neu'r wybodaeth ddiweddaraf o fewn 24 awr.

- Mae cynllun gweithredu manwl ar waith i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adolygiad trosglwyddo terfynol a chaiff hwn ei adolygu gan yr ABM a Phennaeth Cyfiawnder Troseddol yr heddlu yn rheolaidd. Eir i'r afael ag agweddau ar wahân hefyd gan bob un o'r WCUs.

- Mewn hunanasesiad, mae'r uned yn Abertawe wedi nodi ei bod yn bodloni'r holl ofynion sylfaenol ac eithrio cwblhau asesiadau o anghenion cychwynnol ar MG11s. Nod y WCUs yw cynnal asesiadau llawn o anghenion mewn achosion pan gyflwynir ple euog. Yng Nghaerdydd, penderfynwyd, oherwydd anawsterau gydag adnoddau, na ddylid cynnal asesiad llawn o anghenion yn syth ar ôl i ble euog gael ei gyflwyno ond yn hytrach y dylid aros. Mewn achosion yn y llysoedd ynadon, golyga hyn ar ôl i'r rhestr o dystion a fydd yn mynd i'r llys gael ei chyflwyno, ac yn Llys y Goron ar ôl y gwrandawiad rheoli ple ac achos. Am yr un rhesymau, am y

tro, dim ond mewn achosion sy'n ymwneud â honiadau o drais yn y cartref y bydd cyfathrebu llawn yn digwydd ar bob cam yng Nghaerdydd.

- Gwneir dadansoddiad o ddata ar lefel WCU leol a rhanbarthol a chaiff y gwaith dadansoddi hwnnw ei gynnwys mewn pecyn data electronig misol a gynhyrchir gan Swyddog Perfformiad yr LCJB. Rhoddir y wybodaeth hon i reolwyr y CPS ond nid yw'n cynnwys unrhyw waith dadansoddi, er bod cymariaethau â ffigurau cenedlaethol.

- Mae presenoldeb tystion wedi cynyddu'n gyson o ganran sylfaen o 68% i tua 85%. Mae'r gyfradd treialon aneffeithiol yn Llys y Goron oherwydd anawsterau gyda thystion wedi gwella hefyd o ganran sylfaen o 2.4%, gan ostwng i ddim ond 0.4% ym mhedwerydd chwarter 2006-07. Yn y llysoedd ynadon, mae perfformiad wedi gwella o ganran sylfaen o 3.8% i 3%. Mae cyfran y treialon sy'n chwalu oherwydd materion yn ymwneud â thystion wedi cynyddu yn y llysoedd ynadon o ganran sylfaen o 4.5% i 5.4% ac mae'r ganran honno'n sefydlog ar 2.3% yn Llys y Goron.

- Cynigiwyd Datganiadau Personol Dioddefwyr mewn 80% o achosion ym mis Mawrth 2007, sy'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 77%. Cynigiwyd gwasanaethau cymorth mewn 27% o achosion, gyda 5% o'r rheini y cynigiwyd y gwasanaethau iddynt yn eu defnyddio (o gymharu â chyfraddau cenedlaethol o 28% ac 8% yn y drefn honno). Gwnaethpwyd atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Tystion, Cymorth i Ddioddefwyr a sefydliadau gwirfoddol eraill mewn 74% o achosion (o gymharu â 59% yn genedlaethol), a chynhaliwyd ymweliadau cyn treial mewn 100% o achosion.

- Mae rheolwyr WCU yn mynychu cyfarfodydd PTPM a thrafodir perfformiad yr unedau, gyda phwyntiau gweithredu yn cael eu cytuno ar gyfer yr unedau a'r asiantaethau. Er enghraifft, eir i'r afael â materion sy'n ymwneud â chwblhau MG11s yn gywir gan yr heddlu gan gynrychiolwyr yr heddlu.

- Mae gan yr LCJB is-grŵp dioddefwyr a thystion a grŵp arall sy'n cwmpasu'r Rhaglen Rheoli Achosion Troseddol sy'n goruchwylio'r prosiect Dim Tyst Dim Cyfiawnder ac yn monitro'r cynllun gweithredu.

| 9 CYFLWYNO NEWID | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |

**9A Mae gan yr Ardal ymdeimlad clir o ddiben a ategir gan gynlluniau perthnasol**

- Mae Cynllun Busnes yr Ardal yn cynnwys datganiad clir o fwriad gan y CCP. Rhoddir copïau i bob aelod o staff a chaiff crynodeb ei arddangos ar hysbysfyrddau'r swyddfa. Mae cynllun 2006-07 yn nodi amcanion eang ond ni cheir llawer o fanylion ynghylch sut y cânt eu cyflawni. Mae'r cynllun ar gyfer 2007-08 yn mynd i'r afael yn fwy penodol â'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd i ategu prosiectau penodol, er nad yw'n ymdrin yn fanwl â rhai o'r materion allweddol sy'n wynebu'r Ardal yn ystod y flwyddyn nesaf, megis: llwyth achos sy'n gostwng a llai o adnoddau; yr angen i wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'r cynllun cyhuddo statudol yn gweithredu; a'r heriau a wynebir gan y broses o ailstrwythuro Ardaloedd y CPS yng ngrŵp Cymru.

- Caiff y cynllun ei adolygu'n chwarterol yng nghyfarfodydd Bwrdd Strategol yr Ardal (ASB) pan drafodir cynnydd, ond ni chaiff y cynllun ei hun ei ddiweddaru. Nid oedd cynllun 2006-07 yn cynnwys y gwaith ail-gyflunio mawr mewn perthynas â'r unedau yng Nghaerdydd a Merthyr. Cafodd y gwaith hwn ei wneud yn ystod ail hanner y flwyddyn mewn ymateb i'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y CCP sef y dylai'r Ardal symud i ffwrdd oddi wrth y gwahaniaeth artiffisial rhwng gwaith y llysoedd ynadon a gwaith Llys Goron ac ail-alinio'i hun yn dimau amlswyddogaethol.

- Mae'r ddogfen gyhoeddedig yn dangos cyfrifoldebau, cerrig milltir allweddol a chanlyniadau dymunol. Mae'n cynnwys cysylltiadau clir rhwng amcanion yr Ardal a thargedau'r system cyfiawnder troseddol, targedau cenedlaethol y CPS a'r fframwaith OPA. Yna, caiff y cysylltiadau eu trosglwyddo i amcanion unigol. Mae pob un o'r rhanbarthau yn gweithio'n unol â chynllun yr Ardal, ac mae o leiaf un ohonynt wedi cytuno ar gynllun gweithredu i ategu'r broses o gyflwyno'r strategaeth Ardal.

- Mae gan yr LCJB Gynllun Cyflawni Strategol manwl a cheir tystiolaeth o gydweithio agos gyda'r heddlu ar rai mentrau newid, fel rhybuddion amodol a Dim Tyst Dim Cyfiawnder.
  Mae grŵp strategaeth teir-ran (un o is-bwyllgorau'r Bwrdd) yn goruchwylio'r Rhaglen Rheoli Achosion Troseddol sy'n cynnwys y cynllun cyhuddo, NWNJ a'r Rhaglen Rheoli Treialon Effeithiol. Mae'r grŵp hwn yn adolygu cynnydd ac yn trafod materion gweithredol. Ychydig iawn o dystiolaeth a welir o gynllunio ar y cyd â'r llysoedd, er enghraifft, mewn perthynas â threfniadau rhestru ar draws yr Ardal.

**9B Mae strategaeth rheoli newid gydlynol a chydgysylltiedig ar gael**

- Mae'r Ardal wedi penodi uwch-gyfreithiwr llawn amser i ymgymryd â rôl y Rheolwr Prosiect. Mae'n arwain llawer o'r prosiectau newid lleol a chenedlaethol, yn cynnwys CJSSS lle mae'n ymgymryd â rôl ar draws y system cyfiawnder troseddol ar ran yr LCJB. Cynhyrchir dogfennaeth gynhwysfawr yn seiliedig ar dempledi cenedlaethol i ategu prosiectau diweddar, a chaiff ei diweddaru yn ôl yr angen. Mae'r dull hwn o weithredu wedi'i ddefnyddio i ad-drefnu Rhanbarthau Caerdydd a Merthyr, rhybuddion amodol a CJSSS.

- Mae adolygiadau ôl-weithredu o brosiectau cenedlaethol wedi'u defnyddio i asesu llwyddiant ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu. Yn achos Unedau Gofal Tystion, mae'r cynllun wedi'i adolygu ac mae'r prosiect wedi llwyddo i sicrhau bod yr unedau wedi'u hintegreiddio i'r busnes craidd ac yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni'r gofynion sylfaenol. Mae'r Tîm Gweithredu Lleol, a sefydlwyd yn wreiddiol i reoli'r broses o gyflwyno CMS, wedi parhau i gwrdd ac, o ganlyniad, wedi sicrhau bod datblygiadau pellach mewn TG fel negeseuon e-bost diogel a fersiynau mwy diweddar o CMS wedi cael eu cyflwyno'n llwyddiannus.

- Nid yw'r broses o ddatblygu penderfyniadau cyn cyhuddo a'u hintegreiddio fel rhan o'r busnes craidd wedi mynd rhagddi cystal ag y dylai, er gwaethaf proses weithredu lwyddiannus ar y pryd. Cydnabuwyd hyn a chynhaliwyd adolygiad o'r cynllun. Cafodd y prosiect a sefydlwyd yn ystod 2006-07 i wella ansawdd gwaith datgelu ei redeg yn dda ac roedd yn gynhwysfawr iawn, ond nid yw wedi llwyddo hyd yma i gynhyrchu'r gwelliannau gofynnol ar draws yr Ardal. Derbynnir hyn ac mae'r Ardal yn bwriadu defnyddio'r system rheoli perfformiad yn fwy cadarn yn y dyfodol fel ffordd o sicrhau mwy o lwyddiant.

- Mae cynlluniau ar waith ar gyfer gweithredu CJSSS ac ymddengys fod pob un o'r asiantaethau yn ymrwymedig iddo. Mae'r cynlluniau wedi'u dogfennu'n dda a chânt eu diweddaru'n rheolaidd. Ar hyn o bryd, mae rhybuddion amodol ar waith yn Abertawe a chaiff timau gweithredu eu sefydlu yn y rhanbarthau eraill i hwyluso'r broses o'u cyflwyno ar draws yr Ardal. Mae Uned Gwaith Achos Cymhleth wedi'i sefydlu, sy'n sail ar gyfer uned grŵp newydd Ardal Cymru. Dilynwyd y templed cenedlaethol fel dogfen gynllunio.

- Mae'r ASB yn derbyn adroddiadau ar brosiectau unigol yn ei gyfarfodydd misol ond ni cheir unrhyw gysylltiad amlwg rhwng prosiectau newid drwy fwrdd rhaglen cyffredinol. Nid oes cysylltiad chwaith o ran y ffordd y caiff prosiectau eu rheoli, er enghraifft, ymddengys nad oes cydnabyddiaeth eang o'r effaith y dylai'r cynllun cyhuddo statudol ei gael ar berfformiad drwy'r broses erlyn.

- Mae pob prosiect yn cynnwys cynllun hyfforddi, sef un o'r cryfderau a nodwyd yn yr adolygiad terfynol o brosiect NWNJ. Ar rai prosiectau, caiff yr hyfforddiant ei gyfyngu i ddosbarthu dogfennau neu ddysgu o bell drwy gyfrwng electronig heb gyswllt wyneb yn wyneb.

- Mae adolygiadau o gynnydd yn arwain at newid lle y bo angen, er enghraifft, arweiniodd yr adolygiad terfynol o'r WCUs at newidiadau yn Rhanbarth Merthyr i uno pedwar safle. Fodd bynnag, mae newidiadau yn aml yn deillio o nodi problemau, yn hytrach na phroses flaengar, esblygiadol fel yr adolygiad o'r cynllun cyhuddo a gynhaliwyd yn ddiweddar.

- Cynhelir cofrestr risgiau sy'n nodi risgiau strategol allweddol. Caiff ei hadolygu'n gyfnodol a chofnodir statws y risgiau, ond ymddengys nad yw'r adolygiadau yn nodi unrhyw wrthfesurau ychwanegol na chamau gweithredu pellach. Roedd gan brosiect NWNJ ei gofrestr risgiau ei hun, ond penderfynwyd na fyddai gan brosiectau eraill gofrestrau ar wahân.

### 9c Mae'r Ardal yn sicrhau bod gan staff y sgiliau, y wybodaeth a'r cymwyseddau i ddiwallu'r angen busnes

- Gweithredir rhaglen hyfforddi sydd wedi'i chreu mewn cydweithrediad ag Ardaloedd CPS cyfagos Gwent a Dyfed Powys. Er nad yw'n cynnwys cysylltiadau penodol ag amcanion allweddol, mae

cysylltiad amlwg rhwng y pynciau a blaenoriaethau'r CPS. Caiff y rhaglen ei llunio gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu (LDM) sy'n cwmpasu'r tair Ardal ac a gaiff ei gynghori gan bwyllgor o'i Reolwyr Busnes Ardal.

- Caiff cynlluniau datblygu personol eu cwblhau gan staff mewn cydweithrediad â rheolwyr ac fe'i cyflwynir i'r LDM er mwyn helpu i baratoi'r rhaglen; darperir hyfforddiant yn ôl y galw. Mae diwylliant o ragweithioldeb ar droed o ran nodi anghenion hyfforddi ac mae pob prosiect yn cynnwys rhaglen hyfforddi.

- Nid oes unrhyw gyfeiriad penodol at gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y rhaglen hyfforddi, ar wahân i'r cyfleoedd i ddysgu neu wella sgiliau Cymraeg, er bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu cynnwys yn yr hyfforddiant sefydlu sy'n cael ei ddatblygu, yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol.

- Mae'n ofynnol i reolwyr ystyried materion cyfle cyfartal wrth awdurdodi ceisiadau am hyfforddiant, er enghraifft, sicrhau bod staff rhan amser yn gallu manteisio ar yr un darpariaethau â staff llawn amser. Gwahoddir staff i wneud cais am gyrsiau a ddarperir yn y rhaglen safonol. Caiff rhaglen NVQ ei rhedeg ar gyfer staff gweinyddol. Canfu'r adolygiad o Dde Cymru ar gyfer ei hail-achredu ar gyfer Buddsoddwyr mewn Pobl (IiP) fod 83% o staff wedi nodi bod yr hyfforddiant a gawsant yn briodol.

- Mae pob un o'r cyfreithwyr wedi cael hyfforddiant drwy'r Rhaglen Erlynydd Rhagweithiol. Nodwyd bod hyfforddiant sefydlu yn wendid ac mae cynlluniau ar waith i wella ansawdd yr hyfforddiant hwnnw.

- Gofynnir i bob aelod o staff gwblhau ffurflen werthuso dri mis ar ôl iddynt gael yr hyfforddiant ac mae'r LDM yn cyflwyno adroddiad chwarterol i'r ABM sy'n rhoi crynodeb o'r adborth. Ar wahân i hynny, nid oes unrhyw broses werthuso ffurfiol ar waith, ond byddai rheolwyr yn disgwyl gweld gwelliannau mewn perfformiad o ganlyniad i hyn, a nodir drwy CQA a dulliau eraill.

| 10 RHEOLI ADNODDAU | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Sefydlog** |

**10A Mae'r Ardal yn ceisio sicrhau gwerth am arian, ac mae'n gweithredu o fewn ei chyllideb**

- Yn 2005-06 a 2006-07, gwelwyd tanwariant ar gyllideb costau gweinyddu heb eu neilltuo yr Ardal (99.15% yn 2006-07). Gwelwyd tanwariant sylweddol hefyd ar gostau erlyn yn 2206-07 (71.77% o'r gyllideb).

- Rheolir y gyllideb costau rhedeg yn bennaf o fewn yr Ysgrifenyddiaeth a chaiff y gwaith o ddatganoli cyllidebau i'r rhanbarthau ei gyfyngu i wariant ar eitemau gweinyddol cyffredinol bach, ffioedd asiantau a staff dros dro tymor byr. Ychydig iawn o dystiolaeth a welir o unrhyw bolisïau penodol yn ymwneud â gwerth am arian, er bod rheolwyr yn ymwybodol o sefyllfa'r gyllideb o adroddiadau a roddir ar lafar gan yr ASB a'r AMT. Mae'r gyllideb hefyd yn bwnc trafod mewn adolygiadau chwarterol rhanbarthol a chyfarfodydd Tîm Rheoli'r Rhanbarth.

- Caiff y gyllideb ei monitro'n ganolog ac ar lefel ranbarthol, gan ddefnyddio'r adroddiadau a ddarperir gan Bencadlys y CPS o'r system gyfrifyddu. Caiff anfonebau eu holrhain pan fydd gwariant, ond y tu hwnt i hynny, caiff gwaith rhagweld ei wneud ar sail pro rata yn bennaf yn hytrach na gwneud penderfyniadau hyddysg am wariant yn y dyfodol. Cafodd codiadau disgwyliedig mewn cyflog eu cynnwys ym mhroses cynllunio'r gyllideb yn 2006-07 a chaiff gwybodaeth am groniadau ei chofnodi a'i rhoi i'r Pencadlys.

- Ni chaiff cyllidebau costau erlyn eu trafod yn rheolaidd gan yr ASB na'r DMTs ond caiff achosion costau uchel eu monitro yn yr Ysgrifenyddiaeth. Mae paneli rheoli achosion a gadeirir gan y CCP wedi'u hymgynnull ar gyfer achosion costau uchel iawn ac mae'r cwnsler wedi bod yn barod i gyfranogi. Mae taliadau o dan y cynllun ffioedd graddedig yn amserol. O'r ffioedd a dalwyd ym mis Mawrth 2007, roedd 61% yn ymwneud ag achosion a gwblhawyd ym mis Chwefror neu fis Mawrth (cyfartaledd cenedlaethol o 50%) a 99% i achosion a gwblhawyd yn y pedwar mis blaenorol (cyfartaledd cenedlaethol o 88%). Ni ragwelwyd y tanwariant yn 2006-07 ac ni roddir unrhyw resymau penodol drosto.

- Mae arbedion mewn ffioedd cwnsleriaid o ganlyniad i ddefnyddio Eiriolwyr Llys Uwch yn Llys y Goron wedi'u defnyddio i sybsideiddio'r broses o recriwtio cyfreithwyr ychwanegol i ôl-lenwi ar gyfer y rheini a benodwyd i ymgymryd â gwaith yn y llys uwch ar sail lawn amser.

**10B Mae'r Ardal wedi sicrhau y caiff pob aelod o staff ei leoli'n effeithlon**

- Defnyddir y model costau sy'n seiliedig ar weithgarwch (ABC) i gyfrifo nifer y staff y dylid eu pennu i'r tri rhanbarth, yn seiliedig ar eu llwythi achos priodol. Gwneir addasiadau yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu newidiadau yng nghyfanswm y staff a'r llwythi achos, ac i fynd i'r afael ag anghysondebau.

- O fewn rhanbarthau, caiff staff eu symud rhwng unedau yn ôl disgresiwn y DMTs er mwyn ystyried newidiadau mewn llwyth gwaith. Yn ystod rhan olaf 2006-07, cynhaliwyd ymarfer ailstrwythuro a oedd yn cynnwys Rhanbarthau Caerdydd a Merthyr a defnyddiwyd y model ABC i ddyrannu adnoddau staff o fewn y strwythur newydd.

- Yn 2006-07, cwmpaswyd 82.2% o sesiynau yn y llys ynadon yn fewnol, a oedd ychydig yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 80.4%. Yn ddelfrydol, disgwylir i gyfreithwyr dreulio tri diwrnod yr wythnos yn y llys a dau ddiwrnod yn y swyddfa, er bod yr arfer hwn yn amlach na pheidio yn agosach at gymhareb o bedwar i un. Mae'r Ardal wedi nodi disgwyliadau uwch ar gyfer 2007-08 ac nid oes unrhyw gyllideb wedi'i phennu ar gyfer defnyddio asiantau. Ni chaiff cyfreithwyr cyhuddo eu cynnwys yn yr wythnos waith safonol oherwydd yr arfer o'u rhestru i weithio am gyfnodau estynedig mewn canolfannau cyhuddo. Mae angen adolygiad pellach o'r modd y gweithredir y cynllun cyhuddo er mwyn sicrhau bod cyfreithwyr yn cael eu lleoli'n effeithlon mewn canolfannau cyhuddo.

- Yn 2006-07, roedd gan yr Ardal 8.8 o weithwyr achos dynodedig (DCWs) a gwmpasodd 12.9% o sesiynau yn y llys yn erbyn targed o 15%. Nododd Cynllun Busnes 2006-07 y byddai dau weithiwr achos arall yn cael eu recriwtio ond nid oedd hyn wedi digwydd erbyn diwedd y flwyddyn. Gwellodd y broses leoli tuag at ddiwedd y flwyddyn o 352 o sesiynau yn y chwarter cyntaf i 438 yn y pedwerydd. Mae'r targed o 17% ar gyfer 2007-08 yn fwy heriol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw strategaeth glir ar gyfer cyflawni hyn.

- Mae rhesymau amrywiol dros y methiant i gyrraedd targed y DCW. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae cyfreithwyr yn gweithio mewn llysoedd DCW, ond nid oes digon o lysoedd addas ar gael i DCWs ym Merthyr oherwydd bod y rhanbarth yn cwmpasu pedair o ganolfannau llys gyda rhestrau cymysg yn bennaf. Mae'r targed canran wedi'i gyflawni yn Abertawe, lle y caiff 18-20% o sesiynau eu cwmpasu gan DCWs. Bu rhywfaint o drafod gyda'r llysoedd ar lefel ranbarthol ond ni chafwyd unrhyw ymgais strategol i wella rhestru yn y llysoedd ynadon er budd y CPS neu'r ardal cyfiawnder troseddol gyfan.

- Cyrhaeddwyd y targed HCA, gan arbed cyfanswm o £233,948 yn erbyn targed o £142,985, er mai £207.55 oedd yr arbedion fesul sesiwn (gan gynyddu i £241 erbyn y pedwerydd chwarter), sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o £338.96. Mae uned lawn amser o chwe HCA wedi'i lleoli yng Nghaerdydd, sy'n cwmpasu Llys y Goron yng Nghaerdydd a Merthyr. Mae HCAs llawn amser yn canolbwyntio'n bennaf ar dreialon a chwmpaswyd 121 o sesiynau ganddynt yn 2006-07 fel unig eiriolwyr, yn ogystal â phedwar achos fel aelodau o staff iau i'r prif gwnsler.

- Y bwriad yw y dylai HCAs eraill sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarthau nad ydynt wedi'u penodi i'r uned lawn amser gwmpasu gwrandawiadau rhagarweiniol a gwrandawiadau rheoli ple ac achos pan ragwelir ple euog. Mae hyn yn digwydd yn Rhanbarth Merthyr ond nid yw'n digwydd yn y ddau ranbarth arall. Yn Abertawe, dim ond gwrandawiadau rhagarweiniol a thraddodebau i ddedfryd a gwmpesir gan eu HCAs fel mater o drefn ac yng Nghaerdydd, mae'r uned lawn amser yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith yno. Y rhesymau a roddir dros hyn yw'r pwysau sy'n gysylltiedig â gwaith y llysoedd ynadon a'r ffaith bod sawl un o'r HCAs yn rheolwyr hefyd, na allant neilltuo digon o amser i ymgymryd â'r gwaith.

- Mae nifer yr absenoldebau oherwydd salwch wedi lleihau o 9.1 o ddiwrnodau fesul person y flwyddyn ar gyfartaledd yn y 12 mis hyd at fis Mehefin 2006 i 8.8 o ddiwrnodau yn y 12 mis hyd

at fis Medi 2006. Cyflawnwyd ffigur cyffredinol o 7.6 o ddiwrnodau ar gyfer y flwyddyn 2006-07. Mae'r Ardal yn fodlon drwy ei gwiriadau rheoli bod pob achos o absenoldeb yn cael ei gofnodi'n gywir. Cyflawnwyd y lleihad hwn yn bennaf drwy ddatrys rhai absenoldebau hirdymor. Darparwyd hyfforddiant i reolwyr hefyd, yn enwedig mewn perthynas â'r cyngor sydd ar gael gan y gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

- Mae gweithio hyblyg yn arfer a dderbynnir gyda 19% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg staff yn gweithio patrymau gwaith amgen. Dim ond 11% o'r staff sy'n gweithio rhan amser, sef y ganran isaf yn genedlaethol. Caiff ceisiadau i weithio rhan amser eu hystyried gan y rheolwr llinell perthnasol a'r ABM fydd yn gwneud y penderfyniad yn seiliedig ar angen busnes.

| 11 RHEOLI PERFFORMIAD ER MWYN GWELLA | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |

**11A Mae rheolwyr yn atebol am berfformiad ac mae gwybodaeth am berfformiad yn gywir ac yn amserol**

- Caiff perfformiad ei gynnwys yng nghylch gorchwyl Bwrdd Strategol yr Ardal. Fe'i trafodir ym mhob cyfarfod gan ddefnyddio pecyn data, a gynhyrchir yn fisol mewn fformat electronig hawdd ei ddefnyddio. Caiff y pecyn ei ddosbarthu i uwch reolwyr a'i osod ar y gyriant cyhoeddus ym mhob swyddfa. Darperir ffigurau misol ond ni cheir unrhyw ddadansoddiad ategol. Caiff yr Ardal ei chymharu â'r darlun cenedlaethol a darperir data i lawr i lefel ranbarthol. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith o gymharu'r rhanbarthau yn hawdd oherwydd y ffordd y cyflwynir y data ac ni chaiff ei ddadansoddi fesul unedau unigol. Cynhyrchir pecyn tebyg ar gyfer data'r Uned Gofal Tystion ond mae'n llai hawdd i'w ddeall ac nid oes rhestr termau na chofnod o ffynhonnell y data.

- Darperir trosolwg misol o berfformiad ar gyfer pob rhanbarth, gyda data ar flaenoriaethau allweddol yn cynnwys y cynllun cyhuddo, NWNJ, eiriolaeth llys uwch, datgelu, troseddau casineb a'r Rhaglen Rheoli Treialon Effeithiol. Ceir adran ar gyfer sylwadau ar berfformiad a chamau gweithredu arfaethedig i'w nodi gan y rhanbarth. Mae'r adroddiadau hyn yn sail i drafodaeth chwarterol rhwng y Penaeth Rhanbarthol, y CCP a'r ABM lle y cytunir ar gamau gweithredu ac y cofnodir amserlenni a chyfrifoldebau.

- Trafodir perfformiad mewn cyfarfodydd DMT a gwneir cymariaethau â rhanbarthau eraill. Mae'r Grŵp Cyflawni Newid, sy'n cynnwys pob un o'r uwch reolwyr, yn ystyried perfformiad ar draws yr Ardal ac yn cymharu gwahanol unedau sefydliadol. Mae Rheolwyr Busnes Rhanbarthol yn cyfarfod yn chwarterol ac yn rhannu arfer da.

- Mae rheolwyr gweinyddol yn cynnal gwiriadau ansawdd data misol ar CMS a chaiff gwallau eu cywiro cyn i'r system 'rhewi' ar ddiwedd y mis. Defnyddir adroddiadau ar ganlyniadau anffafriol i amlygu gwallau mewnbynnu hefyd.

- Mae perfformiad wedi gwella yn ystod 2006-07 o ran y targedau allweddol ond, yn ôl Pencadlys y CPS, mae perfformiad De Cymru yn parhau i fod yn wael o ran troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt a throseddwyr ifanc cyson, a dim ond ychydig yn well o ran rheolaeth ariannol, defnyddio DCWs a ffurflenni CQA.

- Yn dilyn cyfarfodydd tîm neu gyfarfodydd rhanbarthol lle y trafodir perfformiad, caiff camau gweithredu eu trosglwyddo i'r staff drwy nodiadau canllaw neu gyfarwyddiadau swyddfa. Nid oes unrhyw adolygiad proses systematig ar waith, ac eithrio mewn perthynas â phrosiectau newid fel ad-drefnu Rhanbarthau Merthyr a Chaerdydd. Rhoddir nodiadau atgoffa er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â systemau yn ysgrifenedig (naill ai ar ffurf copi caled neu gopi electronig) a thrwy gyfarfodydd tîm, a gwneir hynny fel arfer ar lefel tîm neu lefel ranbarthol yn hytrach nag ar draws yr Ardal. Pan fydd camau gweithredu wedi gwella perfformiad, cânt eu nodi mewn cyfarfodydd dilynol.

- Sicrheir bod staff yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb personol am berfformiad drwy'r broses adolygu perfformiad yn ogystal â chyfarfodydd tîm. Rhoddir adborth ar lafar i gyfreithwyr mewn perthynas ag achosion anffafriol, gwaith samplu ar hap cyn cyhuddo a CQA, a ategir gan asesiadau o gyfreithwyr, a chedwir nodiadau ar gyfer adolygiadau o berfformiad a datblygiad.

**11B Mae'r Ardal yn ymrwymedig i reoli perfformiad ar y cyd â phartneriaid CJS**

- Mae'r LCJB yn dirprwyo'r rhan fwyaf o'r materion perfformiad i is-grŵp y Grŵp Llywio Perfformiad (PSG), lle mae'r ABM yn cynrychioli'r CPS. Mae Swyddog Perfformiad y Bwrdd, a leolir yn y swyddfa yng Nghaerdydd, yn cynhyrchu adroddiad perfformiad misol a gyflwynir i'r PSG. Mae'r is-grŵp hefyd yn derbyn adroddiadau ar y camau gweithredu a gymerwyd a'r cynnydd gan is-grwpiau eraill sy'n ymdrin â materion unigol, er enghraifft mewn perthynas â phobl ifanc a dioddefwyr a thystion.

- Mae cyfarfodydd PTPM ym mhob rhanbarth wedi'u hymestyn o'u ffocws gwreiddiol ar berfformiad tîm yr erlyniad o ran adeiladu achosion a chyhuddo i gynnwys agweddau eraill ar berfformiad, ac asiantaethau eraill. Gwahoddir cynrychiolwyr o'r llysoedd gan nad oes unrhyw fforwm arall lle gellir adolygu perfformiad yn y maes cyfiawnder troseddol a chytuno ar gamau gweithredu. Cynhelir y cyfarfodydd hyn yn fisol ar lefel ranbarthol ac maent yn cwmpasu ystod o faterion yn ymwneud â pherfformiad ar draws yr asiantaethau. Ni chaiff rhestrau o gamau gweithredu eu cynhyrchu fel mater o drefn, er y caiff y rheini a nodir yn y cofnodion eu trafod mewn cyfarfodydd dilynol.

- Mae Grwpiau Defnyddwyr y Llys hefyd, gydag aelodaeth ehangach, a ddefnyddir i drafod perfformiad yn ogystal â materion ymarferol yn y llysoedd. Mae uwch reolwyr yn mynd i gyfarfodydd Grwpiau Defnyddwyr Llys y Goron a gaiff eu cadeirio fel arfer gan y Barnwr Llywyddol. Mae gan y CCP gydberthynas 'drws agored' gydag Uwch Farnwr Llywyddol Cylchdaith Caer a Chymru.

- Rhennir gwybodaeth am berfformiad, yn enwedig adroddiadau PTPM, yn effeithiol gyda'r heddlu a'r llysoedd.

- Mae rhywfaint o waith y cyd wedi'i wneud o ran yr Unedau Gofal Tystion ac mae'r camau sydd wedi deillio o'r adolygiad terfynol wedi arwain at rai gwelliannau. Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud hefyd mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill i wella perfformiad mewn perthynas â throseddwyr ifanc cyson, ond sbardunwyd y gwaith hwn gan yr heddlu. Nid yw'r cyfarfodydd PTPM wedi bod yn gwbl effeithiol o ran gwella perfformiad cyhuddo. O ganlyniad, mae'r Ardal wedi penderfynu ailgyflwyno system i fonitro amseroldeb ac ansawdd ffeiliau'r heddlu fel ffordd o nodi rhwystrau yn y system.

**11C Mae'r systemau mewnol ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith achos a'r broses o'i erlyn yn y llys yn gadarn ac yn seiliedig ar waith monitro a dadansoddi dibynadwy a chywir**

- Defnyddir y system CQA i asesu perfformiad cyfreithwyr unigol. Y gyfradd dychwelyd gyfartalog oedd 68.7% yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2007 a 66% ym mhedwerydd chwarter 2006-07 (o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 93%). Nodir cryfderau a meysydd ar gyfer gwella ar y ffurflenni a chofnodir y manylion hefyd ar ffurflenni asesu cyfreithwyr ar wahân;

darperir adborth wyneb yn wyneb. Nodir camau gweithredu ar gyfer gwella i unigolion a gwneir nodiadau fel y gall perfformiad gael ei adlewyrchu yn y broses gwerthuso perfformiad flynyddol.

- Mae'r gwaith o asesu perfformiad rhai agweddau ar ansawdd gwaith achos yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n awgrymu lefel o onestrwydd yn y broses. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod asesiadau yn cael eu herio gan unigolion.

- Ni chaiff canfyddiadau'r broses CQA eu dadansoddi i ganfod tueddiadau naill ai o ran adborth cadarnhaol neu'r gwersi i'w dysgu. Ni thrafodir y canlyniadau yn yr ASB ac ni chaiff data CQA ei gynnwys yn y pecyn data misol na'r adolygiadau chwarterol rhanbarthol.

- Cwblheir adroddiadau ar ganlyniadau anffafriol ar CMS ar gyfer pob achos sy'n methu. Trafodir y rhain gyda'r cyfreithiwr sy'n cynnal yr adolygiad ac yng nghyfarfodydd yr uned fel y gellir lledaenu'r gwersi a ddysgwyd. Nid oes unrhyw ddull ffurfiol ar waith ar gyfer lledaenu gwersi y tu hwnt i'r uned neu'r rhanbarth, er y bydd Penaethiaid Rhanbarthol yn codi materion ar sail ad hoc mewn cyfarfodydd AMT, sy'n cynnwys pob rheolwr ac a gynhelir o leiaf deirgwaith y flwyddyn.

- Caiff materion sy'n ymwneud ag asiantaethau eraill, yn enwedig yr heddlu, eu codi mewn cyfarfodydd PTPM a rhoddir adborth ar achosion unigol gan Benaethiaid Unedau i'r swyddog goruchwylio priodol.

- Mae hyrwyddwyr a chydgysylltwyr ar gyfer arbenigeddau yn gweithio ar lefel ranbarthol yn bennaf, yn hytrach na bod ganddynt gyfrifoldebau ar draws yr Ardal. Mewn rhai achosion, byddant yn cyfarfod i rannu arfer da ond nid yw hyn yn digwydd fel mater o drefn ac, os oes angen iddynt gyfathrebu â'i gilydd, maent yn ysgrifennu at ei gilydd fel arfer.

- Cynhelir gwaith monitro eiriolaeth yn erbyn safonau cenedlaethol y CPS o leiaf unwaith y flwyddyn, ac yn amlach ar gyfer cyfreithwyr llai profiadol. Cofnodir y canlyniadau ar y ffurflen briodol. Rhoddir adborth yn unigol a cheir rhywfaint o drafodaeth mewn cyfarfodydd DMT. Ni wneir unrhyw waith dadansoddi na gwerthuso ar lefel yr Ardal o safonau eiriolaeth ar wahân i'r gwaith a wneir mewn perthynas â chwnsleriaid a gaiff eu monitro gan gyfreithwyr i lywio'r Cydbwyllgor Dethol Eiriolwyr, sy'n ystyried ceisiadau gan gwnsleriaid i ymuno â rhestr y CPS ac ar gyfer ail-raddio.

| 12 ARWEINYDDIAETH | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |

### 12A Mae'r tîm rheoli yn cyfleu gweledigaeth, gwerthoedd a chyfeiriad yr Ardal yn dda

- Mae'r Ardal yn mabwysiadu gweledigaeth a gwerthoedd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ac fe'u dyfynnir ar ddechrau'r Cynllun Busnes, y mae copïau ohono wedi'u rhoi i bob aelod o staff. Y cynllun oedd y prif bwnc ar yr agenda ar gyfer 'Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd' gyda phob rheolwr. Mewn un rhanbarth, cynhaliwyd cyfarfodydd tîm bach i esbonio'r cynllun i'r staff ac i'w gysylltu ag amcanion unigol, ac mewn rhanbarth arall, cynhaliwyd briffiadau gyda rheolwyr i'w cynorthwyo i raeadru'r cynllun i'r staff. Mae DVD y Cyfarwyddwr "Building a World Class Prosecution Service" wedi'i ddangos i staff pob rhanbarth.

- Mae gan Fwrdd Strategol yr Ardal a Thîm Rheoli'r Ardal gylch gorchwyl sy'n nodi cyfrifoldebau'r grwpiau. Mae'r ASB yn pennu cyfeiriad strategol a gweithrediad lefel uchel tra bod yr AMT, sy'n cynnwys pob uwch reolwr, yn adolygu'r broses weithredu, yn gweithredu fel grŵp ymgynghori ac yn fforwm ar gyfer lledaenu gwybodaeth. Mae Grŵp Cyflawni Newid hefyd sy'n cynnwys pob uwch reolwr, sef yr ABM a Phenaethiaid Rhanbarthol, ond nid oes unrhyw gylch gorchwyl ar gyfer y grŵp hwn. Roedd adolygiad ail-achredu Buddsoddwyr mewn Pobl a gynhaliwyd yn ystod 2006-07 yn gadarnhaol iawn ynghylch ymrwymiad rheolwyr i gyflawni strategaeth yr Ardal.

- Er bod y grwpiau rheoli gwahanol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn adolygu cynnydd yn erbyn cynllun yr Ardal, nid oes unrhyw neges gorfforaethol glir yn deillio o'r grwpiau hynny i roi arweiniad i reolwyr eraill ac i staff ynghylch strategaeth a chyfeiriad yr Ardal yn y dyfodol. Y tri DMT sy'n gyfrifol am weithredu penderfyniadau'r ASB a'r AMT. Fodd bynnag, mae gan y rhanbarthau gryn dipyn o annibyniaeth, sy'n golygu bod systemau, prosesau a gweithdrefnau gwahanol yn cael eu datblygu ym mhob un ohonynt. Rhoddwyd lefel o annibyniaeth i ranbarthau yn y ffordd y mae rhai mentrau allweddol wedi'u gweithredu, yn hytrach na mabwysiadu ymagwedd ar lefel Ardal.

- Mae'r CCP a'r ABM wedi rhoi cyflwyniadau yn ystod diwrnodau hyfforddi rhanbarthol, a gynhelir tua dwywaith y flwyddyn, ond nid oes unrhyw fforymau rheolaidd lle y gall staff gyfarfod â'r uwch reolwyr.

- Cynhelir cyfarfodydd tîm ym mhob uned. Mae'r rhain yn orfodol ac mae'n ofynnol i Benaethiaid Rhanbarthol gyflwyno adroddiadau arnynt yn yr adolygiadau chwarterol. Nododd 61% o'r staff a ymatebodd i'r arolwg staff eu bod yn cael cyfarfodydd staff effeithiol, sy'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 55%. Cymerir cofnodion o'r cyfarfodydd a darperir copïau i'r aelodau hynny o staff na allant fod yn bresennol. Er mwyn sicrhau bod y cyfarfodydd mor gynhyrchiol â phosibl mae rhai ohonynt yn cynnwys cyfreithwyr a staff gweinyddol, tra bod eraill yn canolbwyntio ar un grŵp fel sy'n ofynnol yn ôl yr agenda. Mae Cyngor Whitley hefyd yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o ymgynghori a sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

- Rhoddir cyfarwyddiadau rhanbarthol neu nodiadau canllaw i staff i'w hysbysu am weithdrefnau newydd neu i atgyfnerthu negeseuon ynghylch hen weithdrefnau, fel cyhuddo, terfynau amser cadwraeth neu ddatgelu. Mae rhai ohonynt yn gynhwysfawr iawn ac yn hawdd i'w dilyn, tra bod eraill

yn ddim mwy na nodyn eglurhaol a atodir i ddogfen genedlaethol, heb unrhyw ddehongliad lleol. Yn gyffredinol, caiff y rhain eu rhoi ar lefel ranbarthol yn hytrach na fel cyfarwyddiadau ar draws yr Ardal.

- Hyd yn ddiweddar, y CCP oedd cadeirydd yr LCJB. Mae gan y Bwrdd nifer o is-bwyllgorau sy'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau ac mae uwch reolwyr yn cynrychioli'r CPS ar bob un ohonynt. Mae'r CPS hefyd yn cadeirio un ohonynt. Ymddengys fod cofnodion y cyfarfodydd yn dangos cydberthnasau gwaith da ag asiantaethau eraill, er nad yw ymrwymiad ar y lefel uchaf bob amser yn arwain at gyflawniadau ar lawr gwlad. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod adolygiadau ar wahân o'r CPS a phrosesau'r heddlu sy'n ymwneud â chyhuddo wedi'u cynnal gyda phob asiantaeth ond yn ymgynghori â'r llall, yn awgrymu nad yw ethos tîm yr erlyniad yn un sefydledig.

- Mae rheolwyr yn fodlon dysgu o lwyddiannau a methiannau. Mae'r cynllun y cytunwyd arno gyda'r heddlu yn dilyn yr adolygiad trosglwyddo terfynol o'r Unedau Gofal Tystion wedi'i adolygu ar y cyd yn rheolaidd ac aethpwyd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu. Er bod adolygiad o'r cynllun cyhuddo wedi'i gynnal, ymateb i'r ffaith nad oedd y cynllun yn gweithredu'n foddhaol ydoedd yn hytrach na rhan gynhenid o'r adolygiad ôl-weithredu parhaus. Mewn rhai achosion, er bod cynlluniau ar waith, nid ydynt bob amser wedi cyflawni'r canlyniadau dymunol, er enghraifft, ychydig iawn o lwyddiant a gafodd y prosiect i geisio gwella ansawdd gwaith datgelu.

### 12B Mae uwch reolwyr yn gweithredu fel modelau rôl ar gyfer moeseg, gwerthoedd a nodau'r Ardal a'r CPS ac yn dangos ymrwymiad i bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth

- Mae rhywfaint o gydnabyddiaeth o berfformiad da, caiff cymeradwyaeth gan yr heddlu ei throsglwyddo ynghyd â negeseuon ychwanegol gan y rheolwr perthnasol neu'r CCP, ac mae'r cynllun bonws wedi'i ddefnyddio mewn nifer fach o achosion. Defnyddir cylchlythyrau ardal i gyhoeddi llwyddiant mewn arholiadau ac mae tystysgrifau wedi'u cyflwyno yn ystod Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd. Cydnabyddir gwaith da neu lwyddiant hefyd drwy'r broses o ryngweithio â rheolwyr o ddydd i ddydd yn hytrach na thrwy gydnabyddiaeth fwy ffurfiol.

- Cynhaliwyd arolwg staff lleol ym mis Ionawr 2006. Dim ond 24% a ymatebodd, ond codwyd rhai pryderon ynghylch 'Urddas yn y Gwaith'. Anghytunodd 29% o'r rhai a ymatebodd eu bod yn cael eu trin yn deg a chyda pharch; nododd tri ohonynt eu bod wedi cael eu bwlio a dywedodd dau ohonynt iddynt gael eu trin ag amarch. Yn dilyn yr arolwg, sefydlwyd grwpiau ffocws i ganfod mwy am farn y staff er na chymerwyd unrhyw gamau dilynol. Yn yr arolwg staff cenedlaethol a gynhaliwyd dri mis yn ddiweddarach, dywedodd 71% o'r staff eu bod yn cael eu trin yn deg a chyda pharch, a hynny o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 63%. Cytunwyd ar gynllun gweithredu mewn ymateb i'r arolwg staff cenedlaethol ond nid oes unrhyw gamau dilynol wedi'u cymryd hyd yn hyn, gan fod swydd y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth rhanbarthol bellach yn wag.

- Nid oes unrhyw gwynion ffurfiol a brofwyd wedi'u gwneud gan staff ynghylch y ffordd y cânt eu trin gan reolwyr a datryswyd cwyn ynghylch aflonyddu hiliol drwy broses gyfryngu ar ôl cael cyngor gan y Pencadlys. Cafwyd un digwyddiad bach yn ymwneud ag ymddygiad annerbyniol yr ymdriniwyd ag ef drwy roi rhybudd ar lafar.

- Cyfeirir unrhyw negeseuon e-bost amhriodol a anfonir gan staff drwy rwydwaith y CPS at yr Ardal drwy'r tîm diogelwch TG yn y Pencadlys. Fe'u cyfeirir gan yr ABM i reolwr llinell y person dan sylw. Polisi'r Ardal yw siarad â'r aelod o staff ar yr achlysur cyntaf a'r ail achlysur a dim ond ar gyfer trydydd tramgwydd yr ystyrir rhoi rhybudd ar lafar; nid yw hon yn ymagwedd gadarn.

- Yr ABM sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn arwain y gwaith a wneir ar y Cynllun Cynrychioli'r Gweithlu, IiP a'r arolwg staff. Rhestrir y rhain fel blaenoriaethau yn y cynllun busnes ond nid oes unrhyw strategaeth gyffredinol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, er ei bod yn ymhlyg yn y ffordd yr ymgysylltir â'r gymuned.

- Ar ddechrau 2006-07, roedd 4% o staff o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o gymharu ag ychydig dros 4% yn y boblogaeth leol (ystadegau'r llafurlu 2005). Nododd 5% o weithlu'r Ardal eu bod yn anabl. Roedd cynllun yr Ardal ar gyfer 2006-07 yn cynnig y dylid dyblu cyfran y staff o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a staff ag anableddau erbyn 2008, drwy amrywiaeth o ffyrdd. Nid yw'r cynllun wedi'i ddiweddaru hyd yma ar gyfer 2007-08.

| 13 SICRHAU HYDER Y GYMUNED | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Wedi gwella** |

### 13A Mae'r Ardal yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau hyder y gymuned

- Mae uwch reolwyr yn ymrwymedig i ymgysylltu â'r gymuned. Y CCP sy'n ymgymryd â rôl arweinydd strategol yr Ardal, yr ABM a Swyddog Cyfathrebu'r Ardal (ACO) yw'r arweinwyr gweithredol, a'r Rheolwyr Busnes yw'r arweinwyr lleol yn y rhanbarthau. Mae'r Ardal wedi neilltuo cyllideb o £10,000 ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n rhan o gyllideb yr Ysgrifenyddiaeth ac mae uwch reolwyr yn annog staff i fynychu digwyddiadau, gan sicrhau bod adnoddau ar gael.

- Mae set glir o gamau gweithredu ar gyfer ymgysylltu â staff a'r gymuned; cawsant eu hymgorffori yn y Cynllun Busnes ar gyfer 2006-07 ac maent yn parhau yn rhan o'r cynllun cyfredol ar gyfer 2007-08. Mae ffocws clir ar wella perfformiad yn erbyn y mesur ymgysylltu â'r cyhoedd ac mae cynnydd wedi'i wneud yn erbyn yr argymhellion allweddol a nodwyd yn adroddiad y Pencadlys ar gyfer pedwerydd chwarter 2006-07. Roedd staff yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu'r cynllun busnes ac maent yn parhau i fod yn rhan o'r broses o fonitro cynnydd. Yn ogystal, mae amcan unigol sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i gynnwys yng nghynllun datblygu personol pob aelod o staff. Mae rhaglen hyfforddi ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i datblygu ac yn cael ei chyflwyno gan Reolwr Busnes Rhanbarthol a'r ACO.

- Mae pob rhanbarth yn gyfrifol am bennu lefel a natur y gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn diwallu anghenion lleol. Mae'r Ardal yn sicrhau bod unrhyw arfer da neu ymgysylltiad y mae angen eu gweithredu ar lefel yr Ardal yn cael eu nodi yn y cyfarfodydd sicrwydd chwarterol rhanbarthol gyda'r CCP a'r ABM. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd hefyd rhwng y Rheolwyr Busnes Rhanbarthol a'r ACO sy'n golygu y gallant rannu syniadau a nodi ble y mae angen dyrannu adnoddau'r Ardal.

- Mae'r CPS yn ymgysylltu â chymunedau ar draws pob un o'r grwpiau blaenoriaeth: grwpiau oedran, anabledd, iechyd a chymunedol sy'n berthnasol i'r tri chategori o droseddau casineb. Gwelwyd amrywiaeth eang o weithgareddau yn cael eu cynnal ar draws pob rhanbarth, er mai grŵp bach o staff â chynrychiolaeth o bob gradd a gynhaliodd y gweithgareddau hyn yn ystod 2006-07. Dylai'r amcanion personol a bennwyd ar gyfer y flwyddyn bresennol sicrhau bod pob aelod o staff yn cymryd rhan mewn o leiaf un gweithgaredd yn ystod y flwyddyn. Mae'r staff hefyd wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau a gynhaliwyd o dan nawdd yr LCJB a'r rheini a arweiniwyd gan bartneriaid cyfiawnder troseddol.

- Mae gan yr Ardal y wybodaeth ddiweddaraf am ddemograffeg Cymru a chymunedau lleol, ac mae'r ystadegau sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys gwybodaeth am y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Mae'r CCP wedi gweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gynhyrchu'r Cynllun Iaith Gymraeg a ddylai ennyn parch a hyder siaradwyr Cymraeg. Mae'r cynllun yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer yr Ardal a Grŵp Ardal Cymru y CPS yn ystod y flwyddyn bresennol. Mae cynlluniau prosiect ar waith, mae hyfforddiant wedi'i gynllunio ac mae cyllideb o £20,000 wedi'i darparu gan y Pencadlys i gynorthwyo gyda chydymffurfiaeth.

- Bu cymorth Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth rhanbarthol o fudd i'r Ardal. Cyn i'r Swyddog adael ei swydd ym mis Gorffennaf 2007, roeddent yn gallu cysylltu â grwpiau lleiafrifol sy'n anos eu cyrraedd, er enghraifft grwpiau anabledd, Stonewall Cymru, pobl ifanc Mwslimaidd, ffoaduriaid a Cychwyn Cadarn ar gyfer mamau sengl, ac mae angen i'r Ardal sicrhau bod y gwaith cadarnhaol sydd eisoes wedi'i wneud yn parhau. Sefydlwyd Panel Sicrwydd Cymunedol cyn i'r Pencadlys ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflwyno Panel Troseddau Casineb. Mae'n cynnwys detholiad o grwpiau cymunedol ac mae'n rhoi adborth ar bob agwedd ar waith achos. Bwriedir sefydlu Panel Craffu Troseddau Casineb ar gyfer y flwyddyn fusnes bresennol.

- Cedwir cofnod o'r holl weithgarwch ymgysylltu â'r gymuned ar draws yr Ardal ac yn y rhanbarthau. Llenwir taflenni gwerthuso gan bob un o'r cynrychiolwyr ar ôl iddynt gwblhau hyfforddiant ymgysylltu â'r gymuned a chaiff digwyddiadau unigol eu gwerthuso a chyflwynir adroddiadau arnynt i'r Ysgrifenyddiaeth. Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r gwerthusiad a'r adborth ar ddigwyddiadau ym mwletin yr Ardal. Mae'r gwerthusiad wedi arwain at welliant yn y ffordd y cynhelir digwyddiadau a natur y gwaith a wneir o ran ymgysylltu â'r gymuned, ac mae angen i'r Ardal sicrhau nawr bod hyn yn arwain at welliannau o ran y ffordd y darperir gwasanaethau, er enghraifft yn deillio o'r Panel Sicrwydd Cymunedol.

- Mae hyder y cyhoedd yng ngallu'r system cyfiawnder troseddol yn Ne Cymru i ddwyn troseddwyr o flaen eu gwell wedi gostwng o 44.1% ym mis Mehefin 2006 i 42.4% erbyn mis Rhagfyr 2006, fel y mesurwyd gan Arolwg Troseddu Prydain. Fodd bynnag, mae'r ganran hon yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (42.3% ym mis Rhagfyr 2006) sydd wedi gostwng yn gyflymach.

- Mae'r ACO, a benodwyd ym mis Ionawr 2007, yn gyfrifol am gysylltiadau â'r cyfryngau yn Ne Cymru ac am un diwrnod yr wythnos ar ran CPS Gwent. Maent wedi datblygu cysylltiadau da â'r wasg a'r BBC yn lleol, sydd wedi sicrhau bod datganiadau i'r wasg yn cael sylw a bod sylwadau anffafriol yn cael eu herio. Cedwir cofnod o'r sylw a roddir gan y cyfryngau i erthyglau cyhoeddedig neu ddarllediadau mewn cofnod misol. Mae'r ACO bellach yn ymgymryd â gwaith i ddatblygu cysylltiadau â'r wasg leol ar raddfa lai er mwyn sicrhau bod y CPS yn berthnasol i gymunedau lleol.

# ATODIAD A: DATA AR BERFFORMIAD

## Agwedd 1: Gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo

| | Achosion yn y llysoedd ynadon | | | | Achosion yn Llys y Goron | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal | | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal | |
| | | | 2005-06 | 2006-07 | | | 2005-06 | 2006-07 |
| Cyfradd dirwyn i ben | 11.0% | 15.7% | 20.2% | 16.8% | 11.0% | 13.1% | 14.6% | 10.2% |
| Cyfradd pledio'n euog | 52.0% | 69.2% | 64.9% | 69.4% | 68.0% | 66.5% | 66.5% | 71.4% |
| Cyfradd athreulio | 31.0% | 22.0% | 25.1% | 22.0% | 23.0% | 22.2% | 24.5% | 20.6% |

| | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Penderfyniadau cyn cyhuddo sy'n arwain at gollfarn ar ôl cyhuddiad | 78.0% | 78.3% |

## Agwedd 2: Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon

| | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Canlyniadau llwyddiannus (collfarnau) fel canran o'r achosion a gwblhawyd yn y llysoedd ynadon | 84.3% | 81.4% |

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 43.8% | 44.0% |
| Cyfradd treialon chwâl | 37.3% | 42.5% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 18.9% | 13.5% |
| Cyfradd treialon a gaiff eu gadael | 22.5% | 30.8% |

**Perfformiad cyffredinol o ran troseddwyr ifanc cyson (rhwng arestio a dedfrydu)**

| Targed cenedlaethol | Perfformiad cenedlaethol 2006 | Perfformiad yr Ardal 2006 |
|---|---|---|
| 71 o ddiwrnodau | 72 o ddiwrnodau | 72.3 o ddiwrnodau |

*Troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt*

| | Targed CJS yr Ardal 2006-07 | Perfformiad CJS yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Nifer y troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt | 31,780 | 29,523 |

| Troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt yn ôl canran | Cenedlaethol 2006-07 [7] | Ardal cyfiawnder troseddol 2006-07 |
|---|---|---|
| Troseddau a ystyriwyd (TCIs) | 8.5% | 4.8% |
| Hysbysiadau cosb am anrhefn (PNDs) | 10.3% | 16.2% |
| Rhybuddion ffurfiol | 5.8% | 4.4% |
| Rhybuddion | 26.5% | 15.5% |
| Collfarnau | 48.8% | 59.1% |

## Agwedd 3 Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron

| | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---:|---:|
| Canlyniadau llwyddiannus (collfarnau) fel canran o'r achosion a gwblhawyd yn Llys y Goron | 77.7% | 79.3% |

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---:|---:|
| Cyfradd treialon effeithiol | 48.2% | 54.6% |
| Cyfradd treialon chwâl | 39.5% | 33.7% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 12.4% | 11.7% |

7 Yn aros am y ffigurau terfynol o hyd.

| Gorchmynion Deddf Elw Troseddau | Targed yr Ardal 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Gwerth | £1,022,341 | £2,351,588 |
| Nifer | 187 | 170 |

## Agwedd 10: Rheoli adnoddau

| | 2005-06 | 2006-07 |
|---|---|---|
| Alldro cyllideb costau gweinyddu heb eu neilltuo | 97.3% | 99.2% |

| Lleoli staff | Targed cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|---|
| Lleoli DCW (fel % o'r sesiynau yn y llysoedd ynadon) | 17.2% | 14.7% | 12.9% |
| Arbedion HCA yn erbyn targed yr Ardal | 100% | 138.4% | 156.6% |
| Absenoldeb oherwydd salwch (fesul cyflogai y flwyddyn) | 7.5 o ddiwrnodau | 8.5 o ddiwrnodau | 7.6 o ddiwrnodau |

## Agwedd 13: Sicrhau hyder y gymuned

**Hyder y cyhoedd yn effeithiolrwydd yr asiantaethau cyfiawnder troseddol o ran dwyn troseddwyr o flaen eu gwell (Arolwg Troseddu Prydain)**

| Canran sylfaen ardal y CJS 2002-03 | 2004-05 (OPA diwethaf) | Perfformiad yn 2006-07 |
|---|---|---|
| 35% | 41% | 42.4% |

# ATODIAD B: ASIANTAETHAU CYFIAWNDER TROSEDDOL A SEFYDLIADAU A GYNORTHWYODD Â'R ASESIAD PERFFORMIAD CYFFREDINOL HWN

**Yr Heddlu**
Heddlu De Cymru

**Gwasanaeth Llysoedd EM**
Gwasanaeth Llysoedd EM De Cymru

**Cymorth i Ddioddefwyr**
Cymorth i Ddioddefwyr De Cymru

**Grwpiau Cymunedol**
Stonewall Cymru

HMCPSI Rhif Cyhoeddiad 771 / HMCPSI publication no. 771

**Os gofynnwch i ni, gallwn ddarparu crynodeb neu fersiwn cyflawn o'r llyfryn hwn mewn Braille, print bras neu mewn ieithoedd eraill.**

**I gael gwybodaeth neu i gael mwy o gopïau o'r llyfryn hwn, cysylltwch â'n Tîm Cyhoeddiadau ar 020 7210 1197, neu ewch i'n gwefan: www.hmcpsi.gov.uk**

Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM
Swyddfa Llundain:
26-28 Old Queen Street
London SW1H 9HP
Ffôn: 020 7210 1197
Ffacs: 020 7210 1195

Swyddfa Caerefrog:
United House, Piccadilly
York, North Yorkshire, YO1 9PQ
Ffôn: 01904 54 5490
Ffacs: 01904 54 5492

Gwefan:
www.hmcpsi.gov.uk

ⓗ Hawlfraint y Goron 2007